# Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd

Rheoliad 03: 2022 Fersiwn 02
Yn dod i rym: 1 Gorffennaf 2022

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Gorffennaf 2022 | 2022 Fersiwn 01 | Adran 3.6 eglurhad o'r cyfnod ysgrifennu ar gyfer Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig lle mae'r cyfnod cofrestru fel arfer yn dair blynedd. Mae adrannau 6.7 a 6.8 yn disodli'r term "Cywiriadau Mawr" gyda "Cywiriadau Sylweddol". Adran 6.7 eglurhad ynghylch pryd y mae angen archwiliad *viva voce*. |
| 1 Chwefror 2022 | 2021 Fersiwn 03 | Adran 5.1 Addasiad Pwyllgor Adolygu a ganiateir ar gyfer rhaglenni Meistr trwy Ymchwil; Diwygio geiriad adran 6.8 i sicrhau bod cywiriadau viva yn eglur ac yn ymarferol, ac i ffurfioli gweithdrefnau cyfryngu ar gyfer anghytundeb ymhlith arholwyr. |
| 1 Awst 2021 | 2021 Fersiwn 02 | Dull B yn cynnwys astudio'n rhan amser. Diweddaru'r gweithdrefnau cyflwyno. Mân newidiadau i'r geiriad. |
| Mehefin 2021 | 2021 Fersiwn 1.1 | Caniatáu ystyried cyfnod cofrestru eithriadol / addasu dyddiad cyflwyno traethodau ymchwil mewn perthynas â gofynion ariannu.<br>Ffurfioli prosesau ymestyn dyddiad cyflwyno (ailgyflwyno) traethodau ymchwil. |

| Perchennog y ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Deon Ymchwil Ôl-radd. | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 7 Mehefin 2022. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i ysgolion, penaethiaid ysgol, swyddogion ysgol neu bwyllgorau ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y coleg, penaethiaid coleg, swyddogion coleg neu bwyllgorau coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd

Rheoliadau Dyfarnu ac Asesu Graddau,
Graddau Ymchwil

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd

### Arwyddion cyfeirio i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd

Rydych yn cofrestru ar **raglen** (cwrs)

| | |
|---|---|
| Mae gan raglenni **deitlau**, e.e. Hanes<br>Mae rhaglenni'n arwain at **gymhwyster**, e.e. PhD | |
| Mae'n rhaid i chi adrodd am **amgylchiadau lliniarol** | Adrannau 3.6 a 6.6 |
| Rhaid i chi gadw at reoliadau cyffredinol y brifysgol | Rheoliad 13 |
| Anogir ymgeiswyr anabl i ddatgan amhariad/nam fel y gellir ystyried ffyrdd o'u cefnogi | Cod 11 |
| Rhoddir cefnogaeth i helpu gyda chyflogadwyedd a pharatoi at y byd gwaith | Cod 04 |
| Rhoddir cefnogaeth i ymdrin â phroblemau personol | Cod 15 |
| Cewch ymgymryd â dyletswyddau addysgu | Cod 17 |
| Ceir ffyrdd o gwyno ac apelio | Gweithdrefnau 01 a 02 |

**Mae’r ddogfen hon ar gyfer:**

- Meistr yn y Gyfraith trwy Ymchwil (LLMRes)
- Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MARes)
- Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes trwy Ymchwil (MBARes)
- Meistr mewn Addysg trwy Ymchwil (MEdRes)
- Meistr y Weinidogaeth trwy Ymchwil (MMinRes)
- Meistr mewn Cerddoriaeth trwy Ymchwil (MMusRes)
- Meistr mewn Gwyddoniaeth trwy Ymchwil (MScRes)
- Meistr Diwinyddiaeth trwy Ymchwil (MThRes)
- Meistr mewn Athroniaeth (MPhil)
- Doethur mewn Athroniaeth (PhD)
- Doethur mewn Niwrowyddoniaeth Wybyddol (PhD)
- Doethur Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd (DAgEnv)
- Doethur mewn Seicoleg Glinigol (DClinPsy)
- Doethur y Weinidogaeth (DMin)
- Doethur mewn Addysg (EdD)
- Doethur Peirianneg (EngD)
- Doethur mewn Gofal Iechyd (DHealthCare)

**Nid yw'r ddogfen hon ar gyfer:**

- Rhaglenni nad ydynt yn arwain at Gymhwyster Prifysgol - Gweler Cod 14.
- Meistr Ymchwil (MRes) - gweler Rheoliad 01
- Uwch Ddoethuriaethau - Gweler Rheoliad 12

**Gweler hefyd:**

- Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil
- Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol
- Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Myfyrwyr Ôl-raddedig i Addysgu
- Trefniadau Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau

Mae'r rheoliadau, y codau a'r dogfennau eraill ar gael yn:
https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy

## Cynnwys

1. Cwmpas y Rheoliadau ........ 6
1.1 Cyflwyniad/Egwyddorion ........ 6
1.2 Amgylchedd ymchwil ........ 6
1.3 Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-radd y Colegau ........ 6
1.4 Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol ........ 7
1.5 Tiwtor Personol ........ 7
1.6 Materion cyfreithiol a moesegol ........ 7
2. Meini Prawf Dyfarnu Graddau Ymchwil Ôl-radd ........ 9
2.1 Gradd Meistr trwy Ymchwil ac MPhil ........ 9
2.2 Doethuriaethau Proffesiynol a PhD ........ 9
3. Dulliau Astudio a Derbyn ........ 11
3.1 Dulliau Astudio a Chredydau ........ 11
3.2 Gofynion Derbyniadau ........ 12
3.3 Y Broses Dderbyniadau ........ 13
3.4 Rhaglen gynefino a chymeradwyo projectau ymchwil ........ 13
3.5 Trosglwyddo Credydau a Chydnabod Dysgu Blaenorol (Rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol) ........ 14
3.6 Dulliau astudio, ffioedd, cyfnod astudio a therfynau amser ........ 15
3.7 Trosglwyddiadau ........ 17
3.8 Cymwysterau Ymadael cyn cwblhau'r rhaglen radd y cofrestrwyd arni ........ 19
3.9 Cymwysterau ar ôl Marwolaeth a Chymwysterau Aegrotat ........ 19
4. Rheoli, Goruchwylio a Hyfforddi Ôl-raddedigion ........ 21
4.1. Cyfrifoldebau'r Ysgol Ddoethurol ........ 21
4.2. Cyfrifoldebau'r Colegau ........ 21
4.3. Cyfrifoldebau Ysgolion ........ 22
4.4 swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Goruchwyliwr ........ 22
4.5 Datblygu sgiliau ymchwil a sgiliau eraill ........ 24
4.6 Cyfrifoldebau Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd ........ 25
4.7 Camymddwyn ymchwil ........ 25
4.8 Addysgu ........ 26
4.9 Adborth ymgeiswyr, cynrychiolaeth, Cwynion ac Apeliadau ........ 27
5. Monitro ac Adolygu Cynnydd ........ 28
5.1 Pwyllgor Adolygu ........ 28
5.2 Adolygu Cynnydd ........ 28

5.3 Symud Ymlaen mewn Rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol .............................. 29
6. Cyflwyno Traethawd Ymchwil ac Arholi ........................................................ 31
6.1 Amseru ........................................................................................ 31
6.2 Iaith y Traethawd Ymchwil ............................................................... 31
6.3 Arddull, Cynnwys a Chyflwyno ........................................................... 31
6.4 Cyflwyniad terfynol e-draethawd ymchwil i PURE ...................................... 33
6.5 Cyhoeddi a'r Rhwystr Mynediad ......................................................... 34
6.6 Bwrdd Arholi .................................................................................. 34
6.7 Arholiad Llafar (*viva voce*) ................................................................ 36
6.8 Byrddau Arholi - Opsiynau/Penderfyniadau ............................................. 37
Atodiad 1. Canllawiau ar gyfer Arholiad Llafar ................................................ 40
Swyddogaeth y Goruchwyliwr(wyr) .......................................................... 40
Cyn yr Arholiad ..................................................................................... 40
Yn Ystod yr Arholiad ............................................................................... 40
Ar Ddiwedd yr Arholiad ............................................................................ 41
Ar ôl yr Arholiad ..................................................................................... 42
Atodiad 2. Termau ...................................................................................... 43

## 1. Cwmpas y Rheoliadau

### 1.1 Cyflwyniad/Egwyddorion

Mae’r brifysgol yn cynnig rhaglenni ymchwil ôl-radd llawn amser a rhan amser. Maent ar gael mewn ystod eang o feysydd pwnc. Mae’r rhaglenni fel a ganlyn:

- Graddau Meistr trwy Ymchwil
- Meistr mewn Athroniaeth (MPhil)
- Doethuriaethau Proffesiynol
- Doethur mewn Athroniaeth (PhD)

Mae'n rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd gyrraedd safonau academaidd sy'n bodloni meincnodau cenedlaethol (Gweler Adran 2). Mae gradd ymchwil ôl-radd yn dangos bod Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd yn gallu gwneud ymchwil gadarn a deallusol-heriol. Ar lefel doethuriaeth, bydd ymgeisydd hefyd wedi gwneud cyfraniad gwreiddiol ac annibynnol i’r ddealltwriaeth o faes pwnc. Mae'r term 'Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd' neu 'Ymchwilydd Ôl-radd' a ddefnyddir yma hefyd yn golygu 'Myfyriwr Ôl-radd' neu 'Fyfyriwr' mewn Rheoliadau, Codau a Gweithdrefnau eraill.

### 1.2 Amgylchedd ymchwil

Nod y brifysgol yw darparu amgylchedd sy’n hyrwyddo ymchwil rhagorol. Mae hyn yn galluogi Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd i brofi a chynnal ymchwil o ansawdd uchel ac i ymwneud â gweithgareddau dysgu a datblygu eraill. Disgwylir y bydd pwnc ymchwil arfaethedig ymgeisydd yn ymwneud yn sylweddol â strategaeth ymchwil y Brifysgol/Coleg/Ysgol gan alluogi ymgeiswyr i weithio a chyfnewid syniadau gyda staff academaidd a thechnegol, ôl-raddedigion a phobl mewn sefydliadau cydweithredol. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei oruchwylio gan o leiaf ddau unigolyn â chymwysterau addas a fydd yn rhoi arweiniad ar gynllunio, cynnal a chwblhau’r ymchwil. Rhaid i bob ymgeisydd fod â mynediad at:

- Ofod gweithio a chyfleusterau storio.
- Adnoddau dysgu, cyfleusterau labordy, nwyddau traul, a lle bo’n berthnasol, cefnogaeth dechnegol
- Mynediad at ffôn at bwrpasau sy'n gysylltiedig â’r gwaith
- Cyfleusterau cyfrifiadurol.
- Cyfleusterau cyfieithu (Cymraeg-Saesneg).

Bydd math a lefelau’r adnodd yn amrywio'n ôl y project ymchwil, y ddisgyblaeth academaidd, ac a ydyw’r ymgeisydd yn astudio’n llawn amser neu’n rhan amser.

### 1.3 Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-radd y Colegau

Mae gan bob Coleg Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd sy'n rheoli'r gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglenni ymchwil ôl-radd yn y Coleg ac yn cynrychioli'r Coleg ar bwyllgorau'r Brifysgol mewn perthynas â rhaglenni ymchwil i raddedigion (Bwrdd yr Ysgol Ddoethurol, Pwyllgor Graddau Ymchwil, Pwyllgor Gweithredu'r Coleg, Pwyllgor Ymchwil y Coleg). Rôl Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd y Coleg yw datblygu a gweithredu strategaeth ymchwil ôl-radd

yn unol ag Ysgol Ddoethurol y Brifysgol i wella ansawdd y profiad a'r hyfforddiant a gaiff Ymchwilwyr Ôl-radd yn y Coleg. Y prif swyddogaethau yw:

- Darparu amrywiaeth o raglenni ymchwil ôl-radd yn y Coleg drwy weithio ag Arweinwyr Ymchwil Ôl-radd yr Ysgolion a Gweinyddwyr Ôl-radd y Coleg.
- Goruchwylio ceisiadau uniongyrchol, trefniadau goruchwylio, hyfforddiant, gofal bugeiliol a monitro Ymchwilwyr Ôl-radd o fewn y Coleg.
- Arwain sesiynau cynefino i Ymchwilwyr Ôl-radd newydd a digwyddiadau academaidd (megis cynadleddau ôl-radd) i bob Ymchwilydd Ôl-radd yn y Coleg.
- Darparu adborth ar lefel y Coleg i'r Ysgol Ddoethurol ar raglenni gradd.

## 1.4 Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol

Mae gan bob Ysgol Arweinydd Ymchwil Ôl-radd sy'n rheoli sut y caiff strategaeth ôl-radd y Coleg ei gweithredu o fewn yr ysgol. Mae'r Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yn cynrychioli'r Ysgol ar bwyllgorau'r Coleg a'r Brifysgol (Bwrdd yr Ysgol Ddoethurol, Pwyllgor Ôl-radd y Coleg, Pwyllgor Ymchwil yr Ysgol). Y prif swyddogaethau yw:

- Cyflwyno rhaglenni ymchwil ôl-radd o fewn yr Ysgol.
- Dewis a derbyn Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd i raglenni graddau ymchwil yr Ysgol.
- Gweithio gyda'r Gweinyddwr Ôl-radd i sicrhau bod gan bob Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd dîm Goruchwylio, Pwyllgor adolygu a Thiwtor Personol.
- Sicrhau bod gan bob Ymchwilydd Ôl-radd fynediad addas at ddesg, cyfrifiadur, ffôn ac adnoddau eraill sy'n briodol i'w rhaglen astudio.
- Darparu rhaglen gynefino, hyfforddiant a monitro cynnydd.
- Ymwneud â chynrychiolwyr Ôl-radd yn Undeb o fewn yr Ysgol ac Undeb y Myfyrwyr a gweithio'n agos â nhw i weithredu ar adborth (gan gynnwys yr Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil).
- Cynghori Ymchwilwyr Ôl-radd a Goruchwylwyr fel y bo'n briodol, ac ymdrin yn gyfrinachol â'r pryderon a gafodd eu codi.

## 1.5 Tiwtor Personol

Bydd gan bob Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd Diwtor Personol, sy'n annibynnol ar y tîm goruchwylio, ac yn annibynnol ar yr arholwyr. Arweinyddion Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol fydd yn dyrannu Tiwtoriaid Personol. Gall y Tiwtor Personol gadeirio'r Pwyllgor Adolygu. Gall ymgeisydd ofyn am newid Tiwtor Personol ar unrhyw adeg.

## 1.6 Materion cyfreithiol a moesegol

Mae pob ymchwilydd yn gyfrifol am gynnal safonau uchel ym mhob agwedd o'u gwaith. Rhaid i ymgeiswyr ddysgu am arfer da yn eu disgyblaeth a sut i wneud ymchwil yn gywir. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i gyflawni'r tasgau technegol a gwyddonol sydd eu hangen ar gyfer eu hymchwil. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at weithdrefnau'r Brifysgol, sy'n cynnwys:

- Polisi Moeseg Ymchwil Prifysgol Bangor
- Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986: Proses Adolygiad Moesegol

- Polisi Cyffredin Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ar Eiddo Deallusol.
- Polisi Rheoli Data Ymchwil (efallai y bydd gan noddwyr ofynion hefyd o ran rheoli data ymchwil)
- Polisi Diogelu Data
- Rhoi proffil, erthyglau a chyfraniadau i gynadleddau ar system PURE
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Gall canllawiau sy'n benodol i Goleg a/neu ganllawiau sy'n benodol i Ysgol gynnwys:

- Recordio, storio, archwilio a dadansoddi data.
- Gweithdrefnau ar gyfer goruchwylio a monitro’r gwaith a wneir gan Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd.
- Cymeradwyaeth foesegol.
- Iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg.

## 2. Meini Prawf Dyfarnu Graddau Ymchwil Ôl-radd

### 2.1 Gradd Meistr trwy Ymchwil ac MPhil

Graddau Ymchwil ar lefel 7 yw Graddau Meistr trwy Ymchwil ac MPhil. Rhaid i'r ymchwil fod (a) yn werthusiad a dadansoddiad sylweddol o gorff o wybodaeth ac/neu (b) yn broject ymchwil gwreiddiol. Yn ôl Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2008), rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd ddangos, ar gyfer maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol penodol:

i. Ddealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol ac/neu syniadau newydd, y mae llawer ohonynt ar flaen y gad yn eu disgyblaeth academaidd, eu maes astudio neu eu maes ymarfer proffesiynol, neu wedi eu llywio ganddynt.

ii. Dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau y gellir eu cymhwyso i'w hymchwil neu eu hysgolheictod uwch eu hunain.

iii. Cymhwyso gwybodaeth mewn ffordd wreiddiol, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o sut mae technegau ymchwil cadarn yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth.

iv. Dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr:
   - i werthuso'n feirniadol ymchwil gyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.
   - i werthuso methodolegau a datblygu dulliau o'u beirniadu, a lle bo'n briodol, i gynnig damcaniaethau newydd.

### 2.2 Doethuriaethau Proffesiynol a PhD

Graddau ymchwil ar lefel 8 yw Doethuriaethau Proffesiynol a PhD. Dyfernir Doethuriaethau Proffesiynol ar ôl cwblhau elfen hyfforddedig a thraethawd ymchwil. Yn ôl Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2008), rhaid i ymgeiswyr ddangos, ar gyfer maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol penodol:

i. Y gallu i greu a dadansoddi gwybodaeth newydd trwy ymchwil wreiddiol neu ysgolheictod uwch arall. Rhaid i'r gwaith fod ar flaen y gad yn y ddisgyblaeth, o ansawdd sy'n bodloni adolygiad gan gydweithwyr, a rhaid ei fod yn ddigon da i'w gyhoeddi.

ii. Eu bod wedi caffael a deall corff sylweddol o wybodaeth sydd ar flaen y gad yn eu disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol.

iii. Y gallu i gysyniadu, dylunio a gweithredu project ymchwil ac addasu dyluniad y project i ymateb i broblemau annisgwyl.

iv. Dealltwriaeth fanwl o dechnegau y gellir eu cymhwyso i ymchwil ac ymholiadau academaidd uwch.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd sy'n dilyn rhaglen ymchwil ôl-radd mewn Iaith, Astudiaethau Diwylliannol neu'r Celfyddydau Creadigol a Pherfformio hefyd fodloni

gofynion dyfarnu gradd ymchwil ôl-radd trwy ddangos, trwy gyfrwng eu hymchwil, y gallu i gwblhau gwaith a all gynnwys: cyfieithiad gwreiddiol, fersiwn neu addasiad, arteffact, sgôr, portffolio o waith gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa.

## 3. Dulliau Astudio a Derbyn

### 3.1 Dulliau Astudio a Chredydau

Mae lefelau astudio a chredydau rhaglenni ymchwil ôl-radd fel a ganlyn:

- Gradd Meistr trwy Ymchwil: 180 credyd ar lefel 7
- MPhil: Lefel 7 (heb fod yn seiliedig ar gredydau)
- Doethuriaethau Proffesiynol: 540 credyd gydag isafswm o 360 credyd ar Lefel 8. Rhaid i’r credydau sy’n weddill fod ar Lefel 7. Gellir caniatáu uchafswm o 20 credyd ar Lefel 6 os cymeradwyir hyn adeg dilysu.
- PhD: Lefel 8 (heb fod yn seiliedig ar gredydau)

Gall ymgeisydd astudio trwy un o’r dulliau canlynol:

- Dull A: Yn llawn amser yn y Brifysgol (neu gyda chyfnod astudio mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
- Dull B: Yn llawn amser neu ran amser mewn gweithle allanol neu mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
- Dull C: Yn rhan amser yn y Brifysgol (neu yn rhan amser mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
- Dull D: Yn rhan amser neu’n llawn amser yn y Brifysgol fel aelod staff llawn amser neu ran amser.
- Dull E: Cynllun astudio llawn amser neu ran amser i ymgeiswyr sydd, cyn cofrestru yn y Brifysgol, wedi cyhoeddi gweithiau ysgolheigaidd na ddylid fel arfer fod wedi'u cyhoeddi fwy na deng mlynedd o gyflogaeth (neu eu cyfatebol, gan ystyried seibiant mewn gyrfa) cyn dyddiad y cais am y radd (a elwid ers talwm yn PhD trwy Waith Cyhoeddedig).
- Dull F: Astudiaeth ran amser neu lawn amser mewn rhaglen dysgu o bell.
  Ynglŷn â Dull F: Efallai y bydd llawer o raglenni ymchwil ôl-radd, ond nid pob un, yn addas i'w hastudio trwy'r dull hwn. Yn y lle cyntaf, dylid ceisio cyngor yn uniongyrchol gan gydlynwyr rhaglenni (fel yr hysbysebir ar wefan ysgolion academaidd Bangor).

Yn achos Dull B mewn gweithle allanol, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael eu cyflogi gan gwmni neu sefydliad ac y gallant wneud gwaith ymchwil a chael mynediad at oruchwyliaeth ac adnoddau yn eu gweithle. Bydd y swyddfa Cofnodion Myfyrwyr angen cadarnhad o statws cyflogaeth cyn cadarnhau cofrestriad ym mhob blwyddyn astudio. Os yw statws cyflogaeth ymgeiswyr sy'n astudio trwy Ddull B yn newid, yna rhaid i'r ymgeisydd drosglwyddo i astudio trwy Ddull A neu Ddull C. Yn achos Dull B, pan nad yw'r ymgeisydd yn cael ei gyflogi gan sefydliad allanol, rhaid cael cytundeb rhwng y Brifysgol a'r sefydliad cydweithredol sy'n cynnwys cadarnhad bod goruchwyliaeth ac adnoddau priodol yn eu lle yn y sefydliad allanol i wneud gwaith ymchwil (gweler y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol).

Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd sy’n astudio trwy Ddull A, C neu D gwblhau rhan o’u hastudiaethau mewn sefydliad arall yn y Deyrnas Unedig neu dramor. Os yw’r ymgeisydd i ffwrdd o’r Brifysgol am fwy na 6 mis o’r cyfnod cofrestru cyfan, yna rhaid bod cytundeb rhwng y Brifysgol a’r sefydliad cydweithredol. Nid yw hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n

astudio trwy Ddull A o dan drefniant cydweithredol a gymeradwywyd cyn i ymgeiswyr gael eu cofrestru yn y Brifysgol (gweler y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol).

Bydd ymgeisydd PhD sy'n astudio trwy Ddull E wedi cyhoeddi gweithiau ysgolheigaidd na ddylai fel rheol fod wedi eu cyhoeddi fwy na deng mlynedd o gyflogaeth (neu gyfatebol, gan ystyried seibiant mewn gyrfa) cyn dyddiad y cais am y radd. At ddibenion y Rheoliadau hyn, gellir diffinio 'gweithiau cyhoeddedig' fel gweithiau sydd yn y parth cyhoeddus neu sydd o leiaf wedi cael eu derbyn i'w cyhoeddi (ar yr amod y gall yr ymgeisydd ddarparu prawf digonol fod hyn yn wir). Ni fydd adroddiadau ymchwil a baratowyd ar gyfer cynulleidfa gyfyngedig, ac/neu ar sail gyfrinachol yn gymwys i'w cynnwys yn y cais. I fod yn gymwys o dan Ddull E, dylai ymgeiswyr fodloni un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- Mae ef/hi'n aelod o staff y Brifysgol.
- Mae ef/hi'n gallu dangos cysylltiadau sylweddol gyda'r Brifysgol, er enghraifft trwy ymchwil cydweithredol.
- Mae ganddo ef/hi enw ardderchog yn rhyngwladol yn y maes gwaith/ysgolheictod dan sylw.

Ni fydd unigolyn yn gymwys trwy Ddull E os dyfarnwyd gradd Ddoethurol iddo ef/hi o'r blaen yn yr un maes pwnc neu mewn maes pwnc sy'n perthyn yn agos. Ni all unigolyn a raddiodd yn y brifysgol ac a arholwyd ar gyfer Gradd Ddoethurol, ond nas cymeradwywyd ar gyfer y cyfryw radd, fod yn ymgeisydd ar gyfer Gradd PhD o fewn 5 mlynedd i'r arholiad Gradd Ddoethurol gwreiddiol. Bydd yr Arweinydd Ymchwil Ôl-radd a'r Goruchwylwyr arfaethedig yn penderfynu a ydynt yn derbyn ymgeisydd yn seiliedig ar ansawdd y gweithiau cyhoeddedig ac a yw'r gwaith cyhoeddedig, fel casgliad, yn cynrychioli cyfraniad sy'n gyson â'r meini prawf ar gyfer dyfarnu PhD fel y cânt eu diffinio yn Adran 2.2 uchod. Dylai'r ymgeisyddiaeth arfaethedig hefyd gael cytundeb Pennaeth yr Ysgol. Bydd cyflwyniad y gweithiau cyhoeddedig yn cynnwys dadansoddiad beirniadol ac unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig eraill, i'w cyflwyno i'w arholi ddim hwy na 12 mis ar ôl y dyddiad y daeth cyfnod cofrestru'r ymgeisydd i ben. Dylai'r dadansoddiad beirniadol fod rhwng 5,000 a 10,000 o eiriau o ran hyd (canllaw yw hyn gan y bydd yr hyd ym amrywio yn ôl maes pwnc), yn rhoi gwerthusiad o'r maes y mae'r ymgeisydd wedi gweithio ynddo, gan nodi hefyd pa gyfraniad gwreiddiol at ddysg yn y maes gwaith hwnnw mae'r ymgeisydd wedi ei wneud.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cymwysterau mewn sefydliadau eraill astudio yn y Brifysgol fel ymgeiswyr llawn amser nad ydynt yn graddio. Rhaid wrth gytundeb rhwng y Brifysgol a'r sefydliad cydweithredol a phennu ffioedd.

## 3.2 Gofynion Derbyniadau

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod ag un o'r canlynol:

i. Gradd gyntaf o Brifysgol Bangor.
ii. Gradd gyntaf o Brifysgol gymeradwy arall.
iii. Cymhwyster y mae'r Brifysgol yn ei ystyried yn gyfwerth â gradd gyntaf.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r holl amodau eraill a bennir gan y Brifysgol gan gynnwys gofynion iaith Saesneg.

Gall staff llawn amser neu ran amser yn y Brifysgol, gan gynnwys cynorthwywyr ymchwil, wneud cais i ddilyn rhaglen ymchwil ôl-radd. Mae'r meini prawf derbyn, y terfynau amser a'r gofynion eraill fel y cânt eu disgrifio yn y rheoliadau hyn.

## 3.3 Y Broses Dderbyniadau

Caiff gweithdrefnau derbyniadau eu cymhwyso mewn modd cyson er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal. Caiff cynigion derbyn eu hanfon yn ganolog er mwyn sicrhau cysondeb a chyfrinachedd. Gellir cyflwyno ceisiadau, wedi eu cefnogi gan eirda academaidd a chynnig ymchwil, i'r Swyddfa Derbyniadau ar-lein yn defnyddio system Ceisiadau Uniongyrchol Bangor ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Anfonir y ceisiadau i'r Ysgol o fewn 2 ddiwrnod i'w hystyried yn academaidd ac i wneud penderfyniad arfaethedig, yn amodol ar wiriadau statudol. Dylai'r Ysgolion ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Gall yr ymateb ofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd a chaiff ei anfon trwy'r system Ceisiadau Uniongyrchol. Caiff penderfyniadau eu gwneud gan yr Arweinydd Ymchwil Ôl-radd mewn ymgynghoriad â'r Goruchwyliwr arfaethedig. Efallai y bydd angen cynnal cyfweliadau yn achos projectau a ariennir yn allanol neu'n fewnol ac a ddyfernir trwy gystadleuaeth, a dylent gynnwys o leiaf 2 aelod o staff a dylai pob un ohonynt fod wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylid ystyried defnyddio ffôn, Skype neu ddull tebyg os na all ymgeisydd fod yn bresennol mewn cyfweliad. Fe arfer anfonir llythyr cynnig/gwrthod gan y Swyddfa Derbyniadau ymhen dau ddiwrnod gwaith. Fel rheol bydd y llythyr cynnig yn cynnwys:

- Rhif cyfeirnod derbyn.
- Ysgol a maes astudio.
- Enw'r Goruchwyliwr neu lle bo'n berthnasol, yr Arweinydd Ymchwil Ôl-radd
- Cymhwyster (e.e. MPhil, PhD, Gradd Meistr trwy Ymchwil).
- Dull astudio (e.e. llawn amser/rhan amser).
- Dyddiad cofrestru cychwynnol a hyd y rhaglen.
- Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil.
- Ffioedd (dysgu a ffioedd eraill).
- Amodau academaidd, ariannol ac amodau eraill gan gynnwys cyfrifoldebau'r ymgeisydd dros ei astudiaethau academaidd a'i ymgeisyddiaeth am radd ymchwil.
- Dolenni at y Telerau a'r Amodau
- Gwybodaeth ymarferol yn ymwneud â llety, cyllid a theithio i Fangor lle bo'n berthnasol.
- Unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r cynnig gan gynnwys gofynion iaith Saesneg os yn berthnasol.

Anfonir ymateb at bob ymgeisydd sy'n cael eu gwrthod. Cofnodir y rhesymau dros wrthod cais yn y system Ceisiadau Uniongyrchol.

Mae ymgeiswyr ymchwil yn cofrestru ar ddechrau Hydref, Ionawr neu Ebrill, neu mewn amgylchiadau eithriadol trwy gytundeb gyda'r Coleg dan sylw, gall ymgeisydd gychwyn ar raglen ar ddiwrnod cyntaf unrhyw fis.

## 3.4 Rhaglen gynefino a chymeradwyo projectau ymchwil

Mae'r rhaglen gynefino'n cynnwys:

- Seminar ragarweiniol a drefnir gan yr Ysgol Ddoethurol sy'n cyflwyno personél allweddol a'u rolau yn y Colegau a'r Ysgolion, cyfleoedd hyfforddi a datblygu, gwasanaethau cefnogi Ymchwilwyr Ôl-radd, cyflwyniad i'r llyfrgell a materion hawlfraint, monitro a chynnydd.
- Gwybodaeth gynefino sy'n benodol i'r Coleg a/neu'r Ysgol gan gynnwys canllawiau pwnc-benodol ar strwythur a chynnwys y thesis, gweithdrefnau monitro, iechyd a diogelwch ac unrhyw ofynion eraill yn yr Ysgol.

Gall yr Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd neu’r Goruchwyliwr awgrymu projectau ymchwil. Rhaid ystyried y canlynol wrth ddatblygu'r project:

- Disgwyliadau’r noddwr neu’r corff cyllido.
- Pa mor gynaliadwy yw’r project o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.
- Gofynion cyfreithiol a moesegol.
- Yr amser sydd ei angen i gwblhau’r gwaith.
- Sgiliau, gwybodaeth a dawn yr ymgeisydd.

Mae'n rhaid i'r rhaglen ymchwil arfaethedig ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn y terfynau amser a nodir yn Adran 3.6.

## 3.5 Trosglwyddo Credydau a Chydnabod Dysgu Blaenorol (Rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol)

Gall astudiaethau neu brofiad blaenorol gyfrannu tuag at raglen Doethuriaeth Broffesiynol oni nodir i'r gwrthwyneb ym Manyleb y Rhaglen. Gall ymgeiswyr gael eu heithrio rhag gorfod astudio elfen hyfforddedig rhaglen yn llwyr neu yn rhannol. Gall ysgolion ystyried canlyniadau astudiaethau blaenorol (Trosglwyddo Credydau) a/neu ddysgu blaenorol perthnasol (Cydnabod Dysgu Blaenorol).

Ni ellir trosglwyddo mwy na 180 o gredydau. Rhaid i’r credydau a drosglwyddir fod ar Lefel 7 neu uwch. Ni chaiff y credydau fod o radd (e.e. gradd Meistr Hyfforddedig) a ddyfarnwyd i’r ymgeisydd eisoes. Dim ond os cymeradwywyd llwybr trosglwyddo wrth ddilysu neu fel rhan o delerau cytundeb cydweithredol y gellir trosglwyddo credydau o radd a ddyfarnwyd yn flaenorol. Rhaid i'r credydau a drosglwyddir fod yn llai na 10 oed. Gall y brifysgol ac/neu gyrff proffesiynol osod terfynau amser eraill.

Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y mae'n rhaid cydnabod dysgu blaenorol:

- Mae'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth sy'n llai na 5 oed.
- Mae'r deilliannau dysgu, a'u lefelau, yn cyfateb i ddeilliannau dysgu rhaglen neu fodiwl y brifysgol.
- **Nid** yw'r dystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i'r brifysgol ac eisoes wedi ennill credydau prifysgol.
- Gellir cymhwyso Cydnabod Dysgu Blaenorol i fodiwlau cyfan.
- Ni ddiffiniwyd cyfyngiadau ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer y rhaglen pan gafodd ei dilysu.

### 3.6 Dulliau astudio, ffioedd, cyfnod astudio a therfynau amser

Cyhoeddir ffioedd bob blwyddyn ar wefan y brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr dalu ffioedd am y cyfnod cofrestru cyfan. [c.f. Nodyn 1]. Gall staff y Brifysgol fod yn gymwys i gael eu heithrio rhag talu ffioedd. Os bydd ymgeisydd yn rhoi'r gorau i'w astudiaethau neu'n eu gohirio dros dro, ad-delir y ffioedd ar sail pro-rata. Fel rheol ad-delir ffioedd a dalwyd gan drydydd parti (e.e. Cyngor Ymchwil) i'r trydydd parti ac nid i'r ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr nodi efallai y bydd noddwyr yn gofyn am ad-daliad os bydd y myfyriwr yn rhoi'r gorau i'w hastudiaethau neu yn eu gohirio dros dro.

Mae'r cyfnodau cofrestru a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno traethodau ymchwil fel a ganlyn:

| Rhaglen a Dull Astudio | Cyfanswm y Cyfnod Cofrestru (blynyddoedd)* 3 | Terfyn amser ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil (blynyddoedd) *1,*3 |
|---|---|---|
| **Gradd Meistr trwy Ymchwil** | | |
| Dulliau A a B | 1 | 2 |
| Dulliau C a D | 2 | 4 |
| **MPhil** | | |
| Dulliau A a B | 2 | 3 |
| Dulliau C a D | 4 | 6 |
| **Doethuriaethau Proffesiynol*2** | | |
| Dulliau A a B | 3 | 5 |
| Dulliau C a D | 6 | 7 |
| **PhD** | | |
| Dulliau A a B | 3 | 4 |
| Dull C a D ac F | 6 | 8 |
| Dull E | 1 | 1 |

Dull A: Yn llawn amser yn y Brifysgol (neu gyda chyfnod astudio mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
Dull B: Yn llawn amser neu ran amser mewn gweithle allanol neu mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
Dull C: Yn rhan amser yn y Brifysgol (neu yn rhan amser mewn sefydliad arall trwy gytundeb cydweithredol).
Dull D: Yn rhan amser yn y Brifysgol fel aelod staff llawn amser neu ran amser.
Dull E: Cynllun astudio llawn amser neu ran amser i ymgeiswyr sydd, cyn cofrestru yn y Brifysgol, wedi cyhoeddi gweithiau ysgolheigaidd na ddylid fel arfer fod wedi'u cyhoeddi fwy na deng mlynedd o gyflogaeth (neu eu cyfatebol, gan ystyried seibiant mewn gyrfa) cyn dyddiad y cais am y radd (a elwid ers talwm yn PhD trwy Waith Cyhoeddedig).
Dull F: Astudiaeth ran amser neu lawn amser mewn rhaglen dysgu o bell.

Efallai y bydd llawer o raglenni ymchwil ôl-radd, ond nid pob un, yn addas i'w hastudio trwy'r dull hwn. Yn y lle cyntaf, dylid ceisio cyngor yn uniongyrchol gan gydlynwyr rhaglenni (fel yr hysbysebir ar wefan ysgolion academaidd Bangor).

*1 Mae'r dyddiad cau hwn o ddiwedd y cyfnod cofrestru. Bydd ymgeisyddiaeth yn dod i ben os na chyflwynir traethawd ymchwil o fewn y cyfnod amser hwn a bernir bod yr ymgeisydd wedi methu. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir addasu'r cyfnod cofrestru a/neu'r dyddiad cau mewn perthynas â chyflwyno traethawd ymchwil ar gyfer ymgeiswyr ymchwil ôl-radd lle mae cyrff cyllido yn nodi'r gofyniad hwn neu fodelau cyllido eraill.

*2 Gellir diffinio'r dulliau astudio a therfynau amser rhaglenni wrth eu dilysu.

*3 Gellir ymestyn y terfynau amser yn y rheoliadau hyn mewn achosion eithriadol. Rhaid i Ysgol yr ymgeisydd wneud cais am estyniad, gan gefnogi hynny â thystiolaeth briodol. Ar gyfer ymgeiswyr yn y cyfnod **cyn** eu harholiad viva voce, dylai pob cais am estyniad i ddyddiad cau cyflwyno'r traethawd ymchwil gael eu gwneud i'r Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr. Ar gyfer ymgeiswyr yn y cyfnod **ar ôl** eu harholiad viva voce, dylai unrhyw gais am estyniad i'r cyfnod ar gyfer cwblhau cywiriadau y tu hwnt i'r hyn a nodwyd gan y panel arholi, gael eu gwneud i'r Deon Ymchwil Ôl-radd.

Ar gais yr Ysgol, efallai bydd yn rhaid i Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd sy'n astudio trwy Ddull A neu B gwblhau cyfnod astudio ychwanegol cyn cael caniatâd i symud ymlaen i'r rhaglen, er enghraifft, er mwyn cwblhau hyfforddiant mewn technegau penodol. Os yw'n ofynnol gan corff cyllido neu noddwr, gall ymgeisydd gwblhau'r cyfnod astudio ychwanegol yn ystod cyfnod cofrestru estynedig. Codir ffi, a gyfrifir fel cyfran o'r ffioedd dysgu blynyddol, am y cyfnod astudio ychwanegol. Rhaid i geisiadau am gyfnodau astudio ychwanegol gael eu cyfiawnhau gan yr Ysgol a'u cymeradwyo gan yr Ysgol Ddoethurol. Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd fod wedi cofrestru fel ymgeiswyr llawn amser yn ystod y cyfnod astudio ychwanegol. Gall yr Ysgol bennu amodau y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu bodloni cyn y gallant symud ymlaen o'r cyfnod astudio ychwanegol i weddill y rhaglen. Rhaid hysbysu'r ymgeisydd o'r amodau hyn cyn y gall symud ymlaen i weddill y rhaglen.

Os caniatawyd eithrio o gyfnod prawf MPhil neu PhD, neu o ran hyfforddedig Doethuriaeth Broffesiynol (Gweler Adran 5.2) rhaid lleihau'r cyfnodau amser uchod yn unol â hyd y cyfnod eithrio.

Ar gyfer MScRes, y cyfnod cofrestru yw 1 flwyddyn (neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan amser), gyda'r cyfnod ysgrifennu fel rheol yn 3 mis.Ar gyfer rhaglenni Ymchwil Ôl-radd lle mae'r cyfnod cofrestru fel rheol yn dair blynedd (neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan amser), byddai'r cyfnod ysgrifennu fel rheol yn cael ei ystyried yn 12 mis.

Yn achos PhD, gellir lleihau'r cyfnod cofrestru o hyd at 2 flynedd ar gyfer Dulliau A, B a D, a hyd at 4 blynedd ar gyfer Dull C, os yw ymgeiswyr wedi gwneud ymchwil eisoes. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r ymchwil a all gynnwys data a chyhoeddiadau. Ni ellir defnyddio'r ymchwil os yw eisoes wedi cyfrannu at radd uwch neu gymhwyster tebyg. Rhaid i'r ysgol ystyried yn ofalus a yw swm ac ansawdd yr ymchwil gorffenedig yn ddigonol i gyfiawnhau lleihau'r cyfnod cofrestru. Yn achos PhD trwy Ddull E, bydd y Portffolio o weithiau cyhoeddedig gyda dadansoddiad beirniadol ac unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig eraill yn gallu cael eu cyflwyno i'w arholi hyd at 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod cofrestru ar gyfer y rhaglen hon.

Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd fod yn y Brifysgol, neu leoliad arall y cytunwyd arno, yn ystod yr holl gyfnod cofrestru ac eithrio'r ymgeiswyr sydd wedi cofrestru trwy Ddull E. Oni phennir fel arall yn eu hamodau cyflogaeth neu yn yr amodau a osodir gan noddwyr, gall ymgeiswyr sy'n astudio trwy Ddull A gymryd hyd at 8 wythnos o wyliau (gan gynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau'r Brifysgol). Ar gyfer dulliau astudio rhan amser, mae hyn yn berthnasol ar sail pro-rata. Os cofrestrir ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn academaidd, bydd y lwfans gwyliau blynyddol yn cael ei gyfrifo ar sail pro rata. Rhaid i'r Goruchwyliwr neu Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol gymeradwyo absenoldebau astudio neu wyliau (ac eithrio gwyliau cyhoeddus y Deyrnas Unedig a gwyliau'r Brifysgol). Rhaid hysbysu'r Goruchwyliwr neu Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol am absenoldebau annisgwyl oherwydd salwch neu amgylchiadau eraill, cyn 9.30am ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb, gan roi'r rheswm dros yr absenoldeb a syniad o ba mor hir y mae'r Ymchwilydd Ôl-radd yn debygol o fod yn absennol. Caiff hawliau gwyliau ymgeiswyr sy'n astudio drwy Ddull B neu Ddull D eu pennu yn unol â'u hamodau cyflogaeth. Rhaid i absenoldebau sy'n debygol o effeithio ar astudiaethau'r ymgeiswyr (e.e. absenoldeb pan drefnwyd casglu data) gael eu cymeradwyo gan y Goruchwyliwr. Dylai Ymchwilwyr Ôl-radd Rhyngwladol ar fisa Haen 4 gyfeirio at wybodaeth fisa a ddarperir gan y Gwasanaethau Myfyrwyr.

Os yw'r Ysgol yn cytuno, gall ymgeiswyr ohirio eu hastudiaethau oherwydd amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau lliniarol eraill drwy gyflwyno Ffurflen Gais ar gyfer Gohirio Astudiaethau Dros Dro i'r Swyddfa Cofnodion Myfyrwyr. Pan fydd yr ymgeisydd yn dychwelyd, bydd y cyfnod cofrestru yr un fath ag yr oedd ar gyfer y rhaglen wreiddiol oni bai bod estyniad yn cael ei gymeradwyo ar ôl cyflwyno Ffurflen Gais am Estyniad i Ddyddiad Cyflwyno Traethawd Ymchwil/Traethawd Hir. Nid yw cyfleusterau'r Brifysgol ar gael yn ystod cyfnod o ohirio astudiaethau oni bai bod Ffurflen Mynediad at Gyfleusterau Cyfrifiadurol a Llyfrgell yn cael ei llenwi.

Mae gan Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd sydd wedi cofrestru fynediad at gyfleusterau llyfrgell a chyfrifiaduron rhwng diwedd y cyfnod cofrestru a phan fyddant yn cael eu cymhwyster.

## 3.7 Trosglwyddiadau

### Trosglwyddo i/o Raglenni Ymchwil Ôl-radd Llawn Amser /Rhan Amser

Os bydd ymgeiswyr yn trosglwyddo o raglen rhan amser i raglen llawn amser, cyfrifir y cyfnod astudio sydd eisoes wedi ei gwblhau fel a ganlyn:

Cyfnod llawn amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau rhan amser a gwblhawyd (misoedd) /2

Os bydd ymgeiswyr yn trosglwyddo o raglen llawn amser i raglen rhan amser, cyfrifir y cyfnod astudio sydd eisoes wedi ei gwblhau fel a ganlyn:

Cyfnod rhan amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau llawn amser a gwblhawyd (misoedd) *2

Gall ymgeiswyr ymchwil ôl-radd drosglwyddo o raglen astudio lawn amser i raglen ran-amser yn ystod eu cyfnod cofrestru, neu fel arall, mewn ymateb i amgylchiadau sydd wedi newid neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Rhaid i gais i drosglwyddo gael ei gytuno gan bwyllgor goruchwylio'r ymgeisydd a'r cyllidwr (lle bo'n berthnasol), a rhaid cadw at Reoliadau UKVI, fel bo'n briodol.

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Newid Modd Astudio.

**Trosglwyddo i Raglenni Ymchwil Ôl-radd Eraill**

Gall ymgeiswyr drosglwyddo o un raglen ymchwil ôl-radd i un arall:

i. Y trosglwyddiadau sy'n cael eu caniatáu os oes amgylchiadau sy'n atal ymgeisydd rhag cwblhau rhaglen ymchwil ôl-radd neu os nad yw ymgeisydd wedi bodloni'r safonau sy'n ofynnol er mwyn parhau ar y rhaglen ymchwil wreiddiol.

- O raglen Gradd Meistr trwy Ymchwil neu Ddoethuriaeth Broffesiynol i Raglen Ôl-radd Hyfforddedig. Rhaid i ymgeiswyr allu cyflawni gofynion y rhaglen hyfforddedig fel y cânt eu diffinio yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig ac unrhyw ofynion sy'n cael eu diffinio ym Manyleb y Rhaglen.
- O MPhil i Radd Meistr trwy Ymchwil.
- O PhD i MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil.
- O Ddoethuriaeth Broffesiynol i MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil.

Fel rheol ni chaniateir i ymgeiswyr drosglwyddo i raglen ymchwil ôl-radd arall os ydynt wedi cwblhau cyfnod astudio ar eu rhaglen gyfredol sy'n gyfwerth neu’n hwy na chyfnod cofrestru'r rhaglen arall fel y mae wedi ei ddiffinio yn y rheoliadau hyn. Dim ond trwy ganiatáu estyniad yn unol â'r disgrifiad yn Adran 3.6 y gellir caniatáu trosglwyddo i raglen arall y tu hwnt i derfynau amser arferol y rhaglen honno.

ii. Y trosglwyddiadau sy'n cael eu caniatáu pan fo cynnydd ymgeisydd yn gyson â gofynion y rhaglen arall a phan all yr ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod ganddo/ganddi fynediad at ddigon o arian i dalu am gyfnod astudio estynedig.

- O Radd Meistr trwy Ymchwil i MPhil neu PhD.
- O MPhil i PhD.

Ni chaniateir trosglwyddo o Ddoethuriaeth Broffesiynol i PhD. Rhaid i ymgeiswyr sy’n dymuno trosglwyddo o Ddoethuriaeth Broffesiynol i PhD derfynu eu cofrestriad ar y Ddoethuriaeth Broffesiynol a gwneud cais o’r newydd am PhD. Gellir hepgor cyfnod prawf y PhD os yw ymgeiswyr wedi cwblhau elfen hyfforddedig Doethuriaeth Broffesiynol yn llwyddiannus. Gellir caniatáu trosglwyddo o Raglenni Ôl-radd Hyfforddedig i Ddoethuriaethau Proffesiynol yn dibynnu ar yr amodau a ddiffiniwyd adeg dilysu neu fel a gytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer rhaglenni cydweithredol.

Os bydd yr Ysgol yn cytuno, gall ymgeiswyr drosglwyddo o raglen ymchwil ôl-radd i’r un rhaglen mewn Ysgol ac/neu faes pwnc gwahanol. Bydd y cyfnod cofrestru sydd yn weddill yr un peth â’r cyfnod sydd yn weddill o'r rhaglen wreiddiol oni chaiff estyniad ei gymeradwyo yn unol â'r disgrifiad yn Adran 3.6. Nid yw trosglwyddiadau'n bosibl o dan Ddull E.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Cyfrifir y cyfnod cofrestru sy’n weddill os bydd ymgeisydd yn trosglwyddo i raglen newydd gyda chyfnod cofrestru hwy neu fyrrach na chyfnod y rhaglen wreiddiol fel y gwahaniaeth (mewn misoedd) rhwng cyfnod cofrestru’r rhaglen newydd a’r cyfnod a

gwblhawyd eisoes ar y rhaglen wreiddiol. Os bydd Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd hefyd yn newid y dull astudio, rhaid gwneud addasiadau hefyd fel y disgrifir yn adran 3.7.

**Trosglwyddiadau o neu i Sefydliad Arall**

Efallai y bydd goruchwyliwr sy'n trosglwyddo o sefydliad arall yn dymuno trosglwyddo eu Hymchwilwyr Ôl-radd i Brifysgol Bangor. I wneud trosglwyddiadau o'r fath mae angen llythyr rhyddhau gan eu sefydliad gwreiddiol ac adroddiad am eu cynnydd hyd yn hyn, a dylid eu cyflwyno i'r Ysgol Ddoethurol. Rhaid i Ymchwilwyr Ôl-radd sy'n dymuno trosglwyddo i Brifysgol Bangor yn annibynnol o'u Goruchwyliwr blaenorol gyflwyno:

- Geirda academaidd gan eu sefydliad blaenorol.
- Copïau o adroddiadau cynnydd gan y sefydliad blaenorol.
- Argymhelliad gan y Prif Oruchwyliwr arfaethedig yn dilyn cyfweliad ac eglurhad o'r rhesymau dros drosglwyddo.

Yn achos trosglwyddiadau gan Ymchwilwyr Ôl-radd i Brifysgol Bangor o sefydliad arall dylid bod o leiaf 12 mis rhwng y dyddiad trosglwyddo a dyddiad cyflwyno'r traethawd ymchwil, a rhaid iddynt fodloni'r meini prawf derbyn sy'n cael eu disgrifio yn Adran 3.2. Bydd angen iddynt wneud cais i gael eu derbyn os cymeradwyir y trosglwyddiad, a bydd gofyn cael llythyr cynnig yn amlinellu'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'r cynnig, gan gynnwys gofynion unrhyw noddwr.

Mae'n rhaid i Ymchwilydd Ôl-radd a gofrestrwyd ym Mangor ac sy'n dymuno trosglwyddo i sefydliad arall wneud cais i'r Ysgol Ddoethurol am lythyr rhyddhau drwy nodi'n ysgrifenedig neu mewn cyfweliad beth yw eu rheswm dros ddymuno trosglwyddo. Bydd rhaid llenwi Ffurflen Hysbysu am Dynnu'n Ôl a Ffurflen Ad-dalu Ffioedd Dysgu os cymeradwyir eu rhyddhau.

## 3.8 Cymwysterau Ymadael cyn cwblhau'r rhaglen radd y cofrestrwyd arni

Ac eithrio yn achos Doethuriaethau Proffesiynol, ni ellir dyfarnu cymhwyster ymadael i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd os ydynt yn terfynu eu hastudiaethau cyn cwblhau'r broses arholi. Er enghraifft, ni ellir dyfarnu MPhil i ymgeisydd dim ond ar y sail ei fod ef/hi wedi astudio am ddwy flynedd ar raglen PhD. Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd, fel y disgrifir yn Adran 3.7, drosglwyddo i raglenni eraill a chael eu harholi o dan reoliadau'r rhaglenni hynny.

Yn achos rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol, gall ymgeiswyr ymadael gyda Gradd Meistr hyfforddedig, Diploma Ôl-radd neu Dystysgrif Ôl-radd os ydynt wedi cyflawni gofynion y pwyntiau ymadael penodol fel y cânt eu diffinio ym Manyleb y Rhaglen. Ni ellir dyfarnu cymhwyster ymadael i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd os na ddiffiniwyd pwyntiau ymadael penodol ym Manyleb y Rhaglen.

## 3.9 Cymwysterau ar ôl Marwolaeth a Chymwysterau Aegrotat

Os atelir ymgeisydd rhag cwblhau rhaglen, gall Byrddau Arholi argymell i'r Ysgol Ddoethurol fod cymhwyster aegrotat neu gymhwyster ar ôl marwolaeth yn cael ei ddyfarnu. Dyfernir cymwysterau ar ôl marwolaeth os bydd ymgeisydd yn marw cyn cwblhau rhaglen. Dyfernir

cymwysterau aegrotat os na all ymgeisydd gwblhau rhaglen oherwydd salwch ac os oes tystiolaeth na fydd yr ymgeisydd yn gallu ailafael yn ei astudiaethau yn y Brifysgol neu mewn man arall. Gall Byrddau Arholi argymell cymwysterau ar ôl marwolaeth neu gymwysterau aegrotat os oes tystiolaeth y byddai'r ymgeisydd wedi cwblhau'r cymhwyster pe buasai'r amgylchiadau wedi caniatáu hynny. Gall y dystiolaeth gynnwys gwaith wedi ei gwblhau a thystiolaeth gan Oruchwylwyr ac/neu diwtoriaid ynghylch gwaith ac/neu ymrwymiad ymgeisydd. Os oes cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddyfarnu, er enghraifft oherwydd achrediad proffesiynol, gellir argymell cymhwyster arall.

## 4. Rheoli, Goruchwylio a Hyfforddi Ôl-raddedigion

### 4.1. Cyfrifoldebau'r Ysgol Ddoethurol

Mae'r Ysgol Ddoethurol yn gyfrifol am ddarparu'r systemau, y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer safonau academaidd, a rhagoriaeth o ran profiad Ymchwilwyr Ôl-radd ar raglenni graddau ymchwil ym Mhrifysgol Bangor. Mae cymwysterau ymchwil ôl-radd yn unigryw yn yr ystyr eu bod yn creu gwybodaeth newydd neu yn cymhwyso gwybodaeth mewn ffordd newydd ac felly maent wedi'u gwreiddio mewn ymchwil gwreiddiol. Yn gynyddol, mae Ymchwilwyr Ôl-Radd yn garfan o fewn rhaglen neu ganolfan hyfforddiant doethurol a all fod yn rhyngddisgyblaethol ac sy'n golygu caffael sgiliau proffesiynol a sgiliau datblygu gyrfa. Mae ganddynt, felly, hunaniaeth nad yw'n ymwneud yn unig â'u maes pwnc mewn Ysgol a Choleg. Mae sicrhau cydraddoldeb o ran profiad, canlyniad, isadeiledd a chefnogaeth, a chyfleoedd i ddilyn rhaglenni trawswladol, cydweithredol a rhaglenni ar y cyd yn agweddau pwysig ar draws y Colegau i sicrhau bod Bangor yn cyflawni yn ôl disgwyliadau cenedlaethol a rhyngwladol. Nod yr Ysgol Ddoethurol felly yw darparu profiad rhagorol i raddedigion ar draws y Colegau drwy fod yn strwythur academaidd penodol sy'n ffurfio mecanweithiau uno ar gyfer rheoli, datblygu strategol a chreu amgylchedd ymchwil ysbrydoledig er mwyn datblygu ymchwilwyr annibynnol a gyrfaoedd proffesiynol. Mae'r Ysgol Ddoethurol yn cyflawni hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Darparu amgylchedd ymchwil ysgogol a bywiog a hyrwyddo cydweithrediad ar draws disgyblaethau.
- Dangos rhagoriaeth ymchwil.
- Gwella cyfleoedd ar gyfer partneriaethau rhyngwladol a gwaith cydweithredol rhyngsefydliadol.
- Dod am ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac ymchwilwyr profiadol at ei gilydd.
- Sicrhau bod màs critigol o Ymchwilwyr Ôl-Radd i atal arwahanrwydd.
- Darparu strwythurau a phrosesau gweinyddol clir ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-radd a staff, gan gynnwys statws Ôl-radd Ymchwil clir.
- Sicrhau trefn dda o ran derbyniadau a chynefino, a bod â Rheoliadau tryloyw a gwarantu'r drefn o sicrhau ansawdd a'r prosesau ar gyfer monitro, rhoi estyniadau ac ymdrin ag apeliadau.
- Darparu fframwaith ar gyfer rheoliadau, codau ymarfer.
- Darparu hyfforddiant mewn addysgu a sgiliau trosglwyddadwy.
- Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu gyrfa.

Arweinir yr Ysgol Ddoethurol gan Ddeon Ymchwil Ôl-radd a gefnogir gan Reolwr yr Ysgol Ddoethurol a Gweinyddwr Hyfforddiant yr Ysgol Ddoethurol, ac mae'n tynnu ar arbenigedd partneriaid mewnol y Brifysgol ar gyfer recriwtio, derbyniadau, gweinyddu myfyrwyr, sicrhau ansawdd, cymwysterau a chefnogaeth i Ymchwilwyr Ôl-radd.

### 4.2. Cyfrifoldebau'r Colegau

Mae'r Colegau'n gyfrifol am gyflwyno rhaglenni ymchwil ôl-radd, gan gynnwys marchnata a recriwtio disgyblaeth-benodol, cynefino, gweinyddu rhaglenni gradd penodol, mannau astudio pwrpasol, gweithgarwch ymchwil dan arweiniad Ymchwilwyr Ôl-radd, hyfforddiant disgyblaeth-benodol ac adolygu'r gwaith o fonitro cynnydd. Mae gan bob Coleg Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-

radd sy'n atebol i Ddeon y Coleg ac sy'n gweithio'n agos gyda'r Ysgol Ddoethurol i ddatblygu strategaeth ymchwil ôl-radd y Coleg a chydag Arweinwyr Ymchwil Ôl-radd yr Ysgolion i gefnogi gweithgarwch ymchwil ôl-radd. Mae cyfrifoldebau'r Colegau'n cynnwys: marchnata a recriwtio disgyblaeth-benodol, cynefino â'r Coleg, gweinyddu rhaglenni gradd penodol, mannau astudio pwrpasol, gweithgarwch ymchwil dan arweiniad Ymchwilwyr Ôl-radd, a hyfforddiant disgyblaeth-benodol. Mae gan bob Coleg Weinyddwr Ôl-radd sy'n gyfrifol am ymholiadau, ceisiadau, cofnodion, dyrannu tiwtoriaid, cefnogi sesiynau cynefino a chyfarfodydd ôl-radd y Coleg, cynadleddau ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-radd, cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi, gweinyddu adolygiadau blynyddol, a phrosesau arholi megis cyflwyno traethodau ymchwil, arholiad llafar, arholwyr mewnol ac allanol a gwirio cymwysterau terfynol.

### 4.3. Cyfrifoldebau Ysgolion

Mae Arweinwyr Ymchwil Ôl-radd yr Ysgolion yn atebol i'r Pennaeth Ysgol ac yn gweithredu strategaeth ôl-radd y Coleg o fewn eu hysgol trwy drefnu derbyniadau graddau ymchwil ôl-radd, sesiynau cynefino â'r ysgol a grwpiau ymchwil, goruchwylio, adolygu cynnydd, a chefnogaeth fugeiliol. Mae'n rhaid i Arweinwyr Ymchwil Ôl-radd wneud yn siŵr bod pob Goruchwyliwr yn gallu cyfarwyddo gwaith ymgeiswyr a sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd eu hangen i wneud yr ymchwil ar gael. Dylent hefyd sicrhau bod gan Oruchwylwyr nifer briodol o Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd, sef dim mwy na 6 ymgeisydd, oni bai bod strwythurau Goruchwylio ychwanegol ar waith. Gellir cynyddu nifer yr ymgeiswyr gyda chytundeb Pennaeth yr Ysgol. Pennaeth yr Ysgol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fod yn Arweinydd Ymchwil Ôl-radd mewn achosion pan mai'r Arweinydd yw Prif Oruchwyliwr ymgeisydd, a chaiff penderfyniadau eu cyfeirio at yr Arweinydd Ymchwil Ôl-radd (e.e. yn 5 isod).

Rhaid i Ysgolion bennu mentor ar gyfer pob aelod staff sy’n goruchwylio ymgeisydd PhD am y tro cyntaf. Rhaid i'r mentor fod yn Oruchwyliwr profiadol a rhaid iddo/iddi roi arweiniad a chefnogaeth i’r Goruchwyliwr yn ôl y gofyn neu ar gais Pennaeth yr Ysgol neu'r Pwyllgor Goruchwylio.

Mae’n bosib y bydd angen cyswllt mynych ar rai ymgeiswyr, yn enwedig rhai o dramor, yn ystod camau cynnar eu hymchwil, a dylai Ysgolion wneud yn siŵr fod modd i'r Goruchwyliwr neu berson arall (personau eraill) yn yr Ysgol ddarparu arweiniad ychwanegol.

### 4.4 swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Goruchwyliwr

Mae gan bob Ymchwilydd Ôl-radd Brif Oruchwyliwr Penodol, ac un neu ragoro Gyd-oruchwylwyr, a all rannu cyfrifoldebau goruchwylio fel y cytunwyd â'r Prif Oruchwyliwr. Mae’n rhaid i Oruchwylwyr fod yn:

- Aelod llawn amser o'r staff academaidd.
- Aelod rhan amser o’r staff academaidd sy’n meddu ar brofiad academaidd, clinigol neu broffesiynol.
- Aelod o staff prifysgol neu sefydliad ymchwil arall, a chanddo/chanddi'r cymwysterau priodol.

Ni chaniateir i aelod staff academaidd-gysylltiedig, academydd ar gontract cyfnod penodol, nac athro emeritws gael eu penodi fel y Prif Oruchwyliwr. Gellir penodi aelod o staff ar gyfnod prawf fel Prif Oruchwyliwr ar yr amod ei fod/bod wedi cwblhau hyfforddiant i oruchwylwyr yn y sefydliad hwn (sydd ar gael drwy'r Ysgol Ddoethurol) neu wedi cwblhau

hyfforddiant cyfatebol mewn sefydliad arall a phan mae'r goruchwylio'n digwydd o fewn cyd-destun tîm goruchwylio profiadol. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r tîm gynnwys o leiaf un ymchwilydd gweithredol sydd â phrofiad o weithio ar o leiaf ddau gymhwyster gradd ymchwil ôl-radd llwyddiannus (neu a gymeradwywyd gan yr arholwyr am gymhwyster) ar Lefel 8, a bod yn fentor i'r Goruchwyliwr ar gyfnod prawf. Ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar benodi aelod staff ar gyfnod prawf os ydynt eisoes wedi goruchwylio 2 neu'n rhagor o raddau ymchwil ar Lefel 8 yn llwyddiannus. Os yw aelod staff sy'n gweithredu fel Prif Oruchwyliwr yn ymddeol neu'n ymddiswyddo tra bo'n goruchwylio ymgeisydd, yna rhaid penodi aelod arall o staff i rôl y Prif Oruchwyliwr. Os yw'n hysbys y bydd contract Cyd-oruchwyliwr yn dod i ben cyn i astudiaethau Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd gael eu cwblhau, argymhellir bod Ysgolion yn penodi Cyd-oruchwyliwr ychwanegol a fydd yn ei swydd drwy gydol cyfnod cofrestru'r ymgeisydd ac a all gymryd drosodd fel Prif Oruchwyliwr neu Gyd-oruchwyliwr yn ôl y gofyn. Rhaid i’r Ysgol benderfynu, fel rhan o’i chytundeb â'r person dan sylw, a ddylid talu person sydd wedi ymddeol i fod yn Gyd-oruchwyliwr. Bydd Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol gyda chytundeb Pennaeth yr Ysgol yn cymeradwyo Goruchwyliwr ychwanegol neu Oruchwyliwr newydd os bydd Goruchwyliwr yn ymddeol neu'n ymddiswyddo cyn diwedd astudiaethau ymgeisydd, neu os oes rhaid iddo/iddi gymryd cyfnod o absenoldeb am fis neu ragor.

Gellir gwahodd Goruchwylwyr Allanol o sefydliadau anacademaidd i ymuno â'r tîm Goruchwylio yn ychwanegol at y Prif Oruchwylwyr a'r Cyd-oruchwylwyr.

Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd sydd wedi'u cofrestru ar raglenni â chyfnodau estynedig o astudio i ffwrdd o'r Brifysgol (gweler Adran 3.1), fod â Goruchwyliwr Lleol i ddarparu cefnogaeth lle bynnag y byddant yn gwneud yr ymchwil. Gall Goruchwyliwr Allanol neu Gyd-oruchwyliwr gyflawni'r swyddogaeth hon. Hefyd bydd ymgeiswyr yn cael cyswllt rheolaidd â'r Prif Oruchwyliwr a fydd yn cadw’r cyfrifoldeb cyffredinol am yr ymchwil. Rhaid cytuno ar ymweliadau gan y Prif Oruchwyliwr neu gan y Cyd-oruchwyliwr, ac ar y costau cysylltiedig, cyn i ymgeiswyr gael eu derbyn ar raglenni sy'n golygu gwneud ymchwil i ffwrdd o’r Brifysgol.

Rhaid i dimau goruchwylio feddu ar arbenigedd pwnc ynghyd â'r sgiliau a'r profiad i fonitro a chefnogi Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd. Rhaid i Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd gael cyswllt rheolaidd â’r Goruchwyliwr(wyr) i asesu cynnydd. Y Prif Oruchwyliwr sy'n penderfynu pa mor aml y bydd pob goruchwylydd yn cwrdd â'r ymgeisydd, gan roi ystyriaeth i bwnc yr ymchwil ac anghenion yr ymgeisydd. Fodd bynnag, rhaid i o leiaf un o'r goruchwylwyr gwrdd â'u hymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd o leiaf unwaith bob pythefnos, neu unwaith y mis ar gyfer dulliau astudio rhan-amser. Lle na ellir trefnu cyfarfod, rhaid defnyddio dull cyswllt arall yn ei le. Rhaid i'r cyfarfodydd, a phob dull arall o gysylltu, alluogi’r prif oruchwyliwr i gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi ymrwymo i’r rhaglen astudio. Rhaid cofnodi pob cyfarfod/cyswllt, fel sy'n ofynnol gan Bolisi Monitro Presenoldeb y Brifysgol.

Mae cyfrifoldebau Goruchwyliwr(wyr) fel a ganlyn:

- Cymryd rhan yn y broses o ddewis Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd ar gyfer projectau ymchwil yn eu maes arbenigedd.
- Gwybod beth yw gofynion cyllidwr/noddwr.
- Cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cael dogfennau gan y Brifysgol/Coleg/Ysgol sy’n berthnasol i’w hymchwil.
- Gwneud yn siŵr bod gan yr ymgeisydd fynediad at y cyfleusterau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith ymchwil a nodi ffyrdd o gefnogi unrhyw anabledd sy'n hysbys.

- Helpu i ddiffinio a chynllunio'r project ymchwil.
- Rhoi arweiniad ar natur yr ymchwil a'r safon a ddisgwylir.
- Rhoi arweiniad ar ddulliau ymchwil, technegau, casglu data a storio data.
- Rhoi arweiniad ar Eiddo Deallusol, dilysrwydd ymchwil ac osgoi llên-ladrad.
- Rhoi arweiniad ar lenyddiaeth gyhoeddedig a ffynonellau gwybodaeth eraill.
- Rhoi cyngor, lle bo'n berthnasol, ynglŷn â gweithdrefnau i gael cymeradwyaeth foesegol neu gymeradwyaeth arall.
- Gwneud yn siŵr bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau a bod yr ymgeisydd yn cael gwybod am weithdrefnau Iechyd a Diogelwch perthnasol.
- Rhoi cyngor ar hyfforddiant ar sgiliau ymchwil a sgiliau cyffredinol.
- Esbonio beth yw swyddogaethau aelodau'r tîm Goruchwylio fel y bo'n briodol.
- Darparu cefnogaeth fugeiliol a chyfeirio at ffynonellau cefnogaeth eraill e.e. Tiwtor Personol a'r Gwasanaethau Myfyrwyr a gwirio bod unrhyw gefnogaeth arall sy'n cael ei defnyddio yn effeithiol.
- Cysylltu â Chyd-oruchwylwyr, Goruchwylwyr Allanol, a'r Tiwtor Personol fel y bo'n briodol.
- Gwneud yn siŵr bod yr ymgeisydd yn cael gwybod os yw safon y gwaith yn is na'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl yn gyffredinol.
- Esbonio trefniadau'r Adolygiadau Cynnydd a swyddogaeth y Pwyllgor Adolygu.
- Cadw mewn cysylltiad gyda'r ymgeisydd trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol yn rheolaidd a'u cofnodi.
- Bod ar gael i'r ymgeisydd ar adegau priodol eraill.
- Rhoi cyngor ar ddyddiadau cwblhau pob cam o'r gwaith
- Dychwelyd gwaith ysgrifenedig gyda beirniadaeth adeiladol ac o fewn cyfnod rhesymol.
- Trefnu, lle bo'n briodol, i'r ymgeisydd siarad am ei waith, gan gynnwys mewn seminarau a chynadleddau mewnol.
- Goruchwylio unrhyw drefniadau i'r ymgeisydd fynd i gynadleddau neu wneud gwaith i ffwrdd o Fangor, gan gynnwys, lle bo'n briodol, llunio cytundebau gyda'r sefydliad lletyol.
- Darparu adroddiadau cynnydd i noddwyr allanol.
- Darparu canllawiau ar ohirio astudiaethau a gwneud cais am estyniad.
- Gwneud yn siŵr bod yr ymgeisydd yn deall gofynion y broses arholi a'r arholiad llafar.
- Darparu cyngor wrth ddewis arholwr allanol priodol.
- Darparu cyngor ynglŷn â phryd i gyflwyno, cynnwys a fformat y traethawd ymchwil.
- Annog a mentora mewn perthynas â chyhoeddi ac ysgrifennu ceisiadau am grantiau.
- Darparu arweiniad a chefnogaeth o ran gyrfa lle bo hynny'n briodol a darparu geirdaon.
- Darparu goruchwyliaeth rhwng diwedd y cyfnod cofrestru a phan fydd yr ymgeisydd yn derbyn y cymhwyster neu'r hyn sy'n cyfateb iddo.

***Nid swyddogaeth y Goruchwyliwr yw arholi'r traethawd ymchwil.***

Gellir neilltuo rhai o swyddogaethau'r Goruchwyliwr i unigolion dynodedig o fewn Colegau ac/neu Ysgolion.

## 4.5 Datblygu sgiliau ymchwil a sgiliau eraill

Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd gael mynediad at hyfforddiant ymchwil. Bydd hyn yn eu galluogi i ennill sgiliau ymchwil-benodol a sgiliau cyffredinol trosglwyddadwy. Disgwylir y bydd yr hyfforddiant yn gwella profiad a chyflogadwyedd ymgeiswyr. Caiff y cyrsiau sgiliau

eu dewis o blith cyfres o gyrsiau a all gynnwys modiwlau y ceir credydau amdanynt a rhai di-gredyd. Bydd y dewisiadau'n dibynnu ar y rhaglen ymchwil ôl-radd arfaethedig ac ar hyfforddiant a phrofiad blaenorol yr ymgeisydd. Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd drafod y cyrsiau y maent yn eu dewis gyda'u Goruchwyliwr, ac argymhellir eu bod yn gwneud Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi ar ddechrau eu hastudiaethau ac adolygu eu hanghenion yn rheolaidd. Gall y Coleg a/neu yr Ysgol ddynodi cyrsiau y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu cwblhau, er enghraifft, hyfforddiant Iechyd a Diogelwch. Rhaid i rai ymgeiswyr gwblhau cyrsiau penodol hefyd er mwyn cwrdd â gofynion eu corff cyllido neu eu noddwr.

Ni fydd y cyrsiau'n cyfrannu at arholi rhaglenni ymchwil ôl-radd. Ni fydd ymgeiswyr yn ennill cymhwyster wrth gwblhau cyrsiau o'r fath ond gellir trosglwyddo credydau i raglenni gradd eraill. Rhaid ystyried cyrhaeddiad yr ymgeiswyr yn y cyrsiau hyn wrth adolygu cynnydd yr ymgeiswyr.

### 4.6 Cyfrifoldebau Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd

Cyfrifoldebau'r Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd yw:

- Cael cyngor gan y Goruchwyliwr ar gynllunio, gwneud a chwblhau'r ymchwil.
- Cydymffurfio â'r broses a'r gweithdrefnau monitro a chynnydd.
- Cyfathrebu â'r Goruchwyliwr ynghylch cynnydd a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r project ymchwil.
- Cymryd yr awenau o ran codi problemau neu anawsterau.
- Cael cymeradwyaeth am wyliau ac absenoldebau eraill.
- Adrodd am amgylchiadau lliniarol / personol ac absenoldebau oherwydd salwch.
- Parhau i wneud cynnydd gyda'r ymchwil.
- Cwrdd â'r holl derfynau amser y cytunwyd arnynt gyda'r Goruchwyliwr.
- Glynu wrth weithdrefnau iechyd a diogelwch a gwneud ymchwil yn unol â'r diffiniadau mewn asesiadau risg, gan gynnwys polisïau gweithio ar eich pen eich hun.
- Gwneud ymchwil mewn ffordd foesegol a phroffesiynol.
- Penderfynu pryd i gyflwyno'r traethawd ymchwil, gan gymryd barn y Goruchwylwyr i ystyriaeth.
- Cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi o fewn terfynau amser y Brifysgol.
- Cadw data yn y cadwrfeydd gofynnol.

Mae Eiddo Deallusol a gafodd ei greu gan Ymchwilydd Ôl-Radd yn ystod ei astudiaethau yn eiddo i'r Ymchwilydd Ôl-radd. Mae amgylchiadau pan mai'r Brifysgol fydd yn berchen ar yr Eiddo Deallusol project ymchwil ac efallai y bydd ar y Brifysgol angen i'r Ymchwilydd Ôl-radd drosglwyddo eu Heiddo Deallusol i'r Brifysgol (neu i drydydd parti). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.

Dylai Ymchwilydd Ôl-radd sy'n dyfeisio neu'n gwneud darganfyddiad neu'n cyfrannu at hynny ddod â hynny'n syth i sylw ei Oruchwyliwr a fydd yn ei drafod gyda'r Swyddfa Ymchwil a Menter. Dylai'r Ymchwilydd Ôl-radd gadw unrhyw ddarganfyddiad neu ddyfais yn gyfrinachol hyd nes iddi gael ei thrafod gyda'r Brifysgol.

### 4.7 Camymddwyn ymchwil

Mae camymddwyn ymchwil yn cynnwys:

- Camymddwyn academaidd: gan gynnwys cydgynllwynio, ffugio canlyniadau a llên-ladrad.
- Torri Rheoliadau: gan gynnwys rheoliadau'r Brifysgol a rhai asiantaethau allanol.

Caiff y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn academaidd eu disgrifio yn y Weithdrefn Uniondeb Academaidd ond caiff achosion o dorri rheoliadau'r Brifysgol eu hystyried o dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.
Rhaid i ymgeiswyr adrodd am unrhyw amheuon am gamymddwyn ymchwil gan eraill, gan gynnwys y Goruchwyliwr. Ymdrinnir â phob adroddiad yn gyfrinachol. Caiff pob honiad yr ystyrir ei fod yn un maleisus ei ystyried o dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.

### 4.8 Addysgu

Mae'n rhaid i gyfraniad Ymchwilydd Ôl-radd at addysgu, fel Cynorthwywyr Addysgu neu Arddangoswyr, fod yn wirfoddol. Yn unig eithriad yw pan fo telerau ysgoloriaeth (neu gyfwerth - gweler) yn mynnu bod Ymchwilwyr Ôl-radd yn addysgu neu'n nodi'n benodol na chaniateir iddynt addysgu. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd yn cael digon o amser i gwblhau eu hastudiaethau o fewn y terfynau amser a ragnodwyd.
- Sicrhau ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu a gyflwynir/ a ddarperir gan fyfyrwyr ôl-radd.
- Sicrhau bod myfyrwyr ôl-radd yn cael digon o gyfle i ddatblygu eu portffolio o brofiad addysgu.
- Talu Ymchwilwyr Ôl-radd am ymgymryd â gweithgareddau addysgu.

Rhaid i Oruchwylwyr sicrhau nad yw ymrwymiadau addysgu Ymchwilydd Ôl-radd unigol mor drwm fel eu bod yn bygwth rhwystro'r ymgeisydd rhag cwblhau ei astudiaethau. Ni ddylai gweithgareddau addysgu fod yn fwy na 250 awr y flwyddyn ac ni ddylent fod yn fwy na 6 awr mewn unrhyw wythnos unigol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw amser yn gysylltiedig â pharatoi a marcio.

Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd dderbyn hyfforddiant priodol cyn iddynt ymgymryd â dyletswyddau fel Cynorthwywyr Addysgu neu Arddangoswyr, fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Myfyrwyr Ôl-radd i Addysgu.

Gyda chytundeb y Goruchwyliwr, gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd gofrestru ar fodiwlau sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol, y Coleg neu'r Ysgol sy'n rhan o gymwysterau addysgu achrededig (er enghraifft y PG Cert HE). Efallai y bydd gofyn i Gynorthwywyr Addysgu ac Arddangoswyr gwblhau modiwlau hyfforddi lle mae cyfrannu at addysgu yn ofynnol yn y deilliannau dysgu. Nid oes disgwyl y bydd Ymchwilwyr Ôl-radd yn cael eu talu am unrhyw addysgu sy'n rhan o'r modiwlau hyfforddi hyn y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Rhaid talu Ymchwilwyr Ôl-radd am ymgymryd â gweithgareddau addysgu. Dim ond os yw myfyrwyr yn addysgu fel rhan o fodiwlau hyfforddi y caniateir addysgu'n ddi-dal. Mae rhai ysgoloriaethau'n cynnwys tâl am addysgu a dim ond am waith sy'n ychwanegol i'r addysgu a ddiffiniwyd fel rhan o'r ysgoloriaeth y dylai myfyrwyr dderbyn tâl.

## 4.9 Adborth ymgeiswyr, cynrychiolaeth, Cwynion ac Apeliadau

Os nad yw ymgeiswyr yn fodlon â chynnydd eu hymchwil am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, rhaid iddynt gysylltu ag un o'r staff academaidd canlynol: eu Goruchwyliwr(wyr), Tiwtor Personol, Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu, Arweinydd Ymchwil Ôl-radd, Pennaeth yr Ysgol, Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd y Coleg, neu'r Deon Ymchwil Ôl-radd, a dylid gwneud hynny yn gynnar i gael cyngor priodol.

Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd wneud sylwadau, fel rhan o'r weithdrefn fonitro, ar agweddau o'u rhaglen (gweler Adran 5).

Mae Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd yn cael eu cynrychioli ar bwyllgorau a grwpiau'r Brifysgol gan unigolion sydd wedi eu henwebu gan Undeb y Myfyrwyr. Rhaid i Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd gael eu cynrychioli hefyd ar bwyllgorau cyswllt staff - Ymchwilwyr Ôl-radd Colegau ac Ysgolion. Gellir eu gwahodd hefyd i fynychu pwyllgorau eraill y Coleg a/neu'r Ysgol. Disgwylir i Ymchwilwyr Ôl-radd gwblhau Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil yr Awdurdod Addysg Uwch bob blwyddyn.

Mae'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr ar gyfer pob myfyriwr sydd eisiau cwyno am eu rhaglen academaidd neu unrhyw wasanaethau eraill a gynigir gan y Brifysgol. I apelio yn erbyn canlyniadau asesiad academaidd, yn erbyn penderfyniad a wnaed ar gynnydd academaidd, neu mewn perthynas â chymhwyster terfynol, yna defnyddir y Weithdrefn Apelio.

## 5. Monitro ac Adolygu Cynnydd

### 5.1 Pwyllgor Adolygu

Caiff pob Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd ei fonitro gan Bwyllgor Adolygu sy'n cynnwys Cadeirydd, sy'n annibynnol o'r Tîm Goruchwylio, Prif Oruchwyliwr a Chyd-oruchwyliwr(wyr) ac un aelod arall o staff academaidd sy'n annibynnol o'r Tîm Goruchwylio (aelod Mewnol y Pwyllgor Adolygu). Os oes ymgeisydd yn dilyn rhaglen Meistr trwy Ymchwil, lle bo angen, bydd modd cyfuno rolau'r Cadeirydd a'r Cyd-oruchwyliwr. Gellir penodi Goruchwylwyr Allanol hefyd os oes angen. Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol sy'n goruchwylio aelodaeth Pwyllgorau Arolygu. Rhaid i Bwyllgorau Adolygu gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhaid cwblhau'r adolygiad cynnydd cyntaf ac adrodd yn ei gylch yn ystod y 9 mis cyntaf yn defnyddio'r System Adolygu Ôl-raddedigion ar-lein, lle bydd yr ymgeisydd a'r Prif Oruchwyliwr yn llenwi ffurflenni ar-lein yn annibynnol ar ei gilydd gan adrodd ar eu hasesiad eu hunain o'r cynnydd a wnaed. Ar ôl ei gyflwyno, bydd y Cadeirydd yn bod y Pwyllgor Adolygu'n cyfarfod a bydd yr ymgeisydd yn rhoi cyflwyniad ar ei waith ymchwil ac yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor. Yr aelod Mewnol o'r pwyllgor fydd yn arwain yr holi, ond gall pawb sy'n bresennol gyfrannu. Bydd y Pwyllgor Adolygu yn cytuno ar gynllun gweithredu o ran y gwaith sydd i'w wneud gyda'r ymgeisydd yn y dyfodol ac yn gwneud asesiad cynnydd cyffredinol. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am adrodd ynglŷn â'r canlyniad y cytunwyd arno yn y cyfarfod Adolygu trwy'r System Adolygu Ôl-raddedigion, a gofynnir i'r Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd, y Prif Oruchwyliwr a'r aelod Mewnol gytuno â'r adroddiad neu wneud sylwadau yn ei gylch. Os bydd canlyniad y Pwyllgor Adolygu blynyddol yn nodi bod y cynnydd yn anfoddhaol, yna dylid trefnu Pwyllgor Adolygu arall o fewn 3 mis i'r cyntaf er mwyn asesu cynnydd yn erbyn y nodau a bennwyd yn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno (dylid cyfeirio at Adran 5.2). Mewn amgylchiadau eithriadol, pan na all pob cyfranogwyr gytuno ar ganlyniad adroddiad y Pwyllgor Adolygu, gall Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol gadarnhau'r adroddiad yn derfynol ar y System Adolygu Ôl-raddedigion.

Mae'r Pwyllgor Adolygu:

- Yn cymeradwyo'r ymchwil arfaethedig.
- Yn sicrhau bod goruchwyliaeth briodol ar gael.
- Yn cymeradwyo Prif Oruchwyliwr a/neu Gyd-oruchwyliwr newydd yn ôl yr angen.
- Yn sicrhau bod gan yr ymgeisydd fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y project.
- Monitro cynnydd yr ymgeisydd, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau eraill sy'n gwella cyflogadwyedd.

### 5.2 Adolygu Cynnydd

Gall y cyfnod cofrestru ar gyfer MPhil a PhD gynnwys cyfnod prawf. Gall Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol eithrio Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd o'r cyfnod prawf cyfan neu ran ohono os oes ganddynt un o'r canlynol o leiaf:

- Gradd Meistr mewn maes pwnc perthnasol.
- O leiaf 1 flwyddyn o brofiad ymchwil llawn amser, neu 2 flynedd o brofiad ymchwil rhan amser, mewn maes pwnc perthnasol.

- O leiaf 1 flwyddyn o brofiad proffesiynol perthnasol.

Bydd unrhyw gyfnod prawf cytunedig ar gyfer MPhil a PhD trwy Ddull C yn para fel rheol am ddwy flynedd. Bydd unrhyw gyfnod prawf cytunedig ar gyfer MPhil a PhD trwy Ddull A, B neu D yn para fel rheol am flwyddyn. Nid oes cyfnod prawf ar gyfer y rhai sy'n astudio trwy Ddull E neu'n astudio am Radd Meistr trwy Ymchwil. Os caniateir eithrio ymgeisydd o'r cyfnod prawf, rhaid lleihau'r cyfnod cofrestru a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil (gweler Adran 3.6). Rhaid i unrhyw achos o eithrio ymgeisydd o'r cyfnod prawf gael ei gymeradwyo fel rhan o'r broses ymgeisio. Gellir cymeradwyo ceisiadau ôl-weithredol, wedi i ymgeisydd gofrestru, o dan amgylchiadau eithriadol ond rhaid i hynny gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.

Os oes pryderon am gynnydd ymgeisydd yn ystod y cyfnod prawf neu ar unrhyw adeg arall, gall y Pwyllgor Adolygu argymell ei fod/ei bod yn trosglwyddo i raglen arall neu yn terfynu ei h/astudiaethau. Cyn gwneud argymhelliad, rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig bod y cynnydd a wnaed yn cael ei ystyried yn anfoddhaol (gwneir hynny drwy adroddiad y Cadeirydd yn y System Adolygu Ôl-raddedigion gyda chytundeb yr ymgeisydd) a rhaid rhoi cyfle i'r ymgeisydd wella ei berfformiad. Rhaid rhoi cyfnod penodol o amser i'r ymgeisydd ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff y cynnydd ei asesu eto. Y Pwyllgor Adolygu sy'n pennu'r cyfnod rhwng rhoi rhybudd ysgrifenedig ac ailasesu perfformiad, gan ystyried amserlen gweithgareddau a natur y materion a arweiniodd at fod â phryderon ynghylch cynnydd. Ni all y cyfnod amser fod yn hwy na 3 mis. Os na fydd y perfformiad yn gwella, gall y Pwyllgor Adolygu argymell bod yr ymgeisydd yn trosglwyddo i raglen arall neu yn terfynu ei h/astudiaethau. Dylid adrodd am unrhyw argymhelliad i drosglwyddo ymgeisydd i raglen arall (yn unol â'r disgrifiad yn Adran 3.7) wrth Arweinydd Ymchwil Ôl-radd yr Ysgol a fydd yn gorfod gofyn yn ei dro/thro am gymeradwyaeth y Deon Ymchwil Ôl-radd. Rhaid cyfeirio argymhellion i derfynu astudiaethau at y Deon Ymchwil Ôl-radd a dilyn y Weithdrefn Terfynu Astudiaethau.

Caiff prosesau ysgolion wrth fonitro Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd eu goruchwylio o fewn y Colegau gan Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd y Coleg ac ar draws y Brifysgol gan yr ysgol Ddoethurol. Mae cynnydd Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd yn cael ei fonitro gan Pwyllgor Graddau Ymchwil y Senedd neu gan grwpiau sy'n gweithredu ar ei ran.

## 5.3 Symud Ymlaen mewn Rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol

Caiff rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol eu harholi mewn dwy ran. Mae Rhan 1 yn hyfforddedig, a gall gynnwys elfennau hyfforddedig, hyfforddiant ymchwil a dysgu ar leoliad. Caiff Rhan 1 ei harholi drwy asesiadau fel y maent wedi eu diffinio ym Manyleb y Rhaglen. Gall yr asesiadau gynnwys gwerthuso ymarfer proffesiynol/diwydiannol, arholiadau, adroddiadau a phrojectau/portffolios. Project ymchwil yw Rhan 2 a bydd ymgeiswyr yn cwblhau traethawd ymchwil.

Rhaid i Fwrdd Arholi ystyried a chadarnhau canlyniadau ymgeiswyr yn Rhan 1 cyn y caniateir iddynt gyflwyno traethawd ymchwil Rhan 2 i'w arholi. Gall Ymgeiswyr Ymchwil Ôl-radd DClinPsy gyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi cyn cwblhau Rhan Un. Er mwyn cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus, rhaid i ymgeiswyr gyflawni pob un o'r canlynol:

- Marc cyfartalog cyffredinol sydd o leiaf yn 50%.
- Marc sydd o leiaf yn 50% yn yr holl fodiwlau craidd.

- Marciau sydd o leiaf yn 50% mewn modiwlau sy'n werth o leiaf 160 o gredydau.
- Dim un marc yn unrhyw fodiwl o dan 40%.

Mewn amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, i gyflawni amodau a osodir gan Gorff Proffesiynol), gellir addasu'r meini prawf sy'n cael eu diffinio uchod yn amodol ar gael eu cymeradwyo adeg dilysu.

Rhaid i'r Bwrdd Arholi benderfynu a oes raid i ymgeisydd sydd wedi methu Rhan 1 gael ei arholi o'r newydd:

i. Ym mhob elfen o'r asesu.

ii. Yn yr elfennau o'r asesu y methwyd ynddynt.

Marc llwyddo yw'r marc uchaf y gellir ei roi i waith sy'n cael ei ailgyflwyno oni bai bod amgylchiadau lliniarol wedi eu cofnodi sydd wedi effeithio ar gyflwyniad cyntaf yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno gwaith newydd i'w arholi o'r newydd. Yn achos elfennau clinigol neu ymarferol, gall y Bwrdd Arholi ganiatáu i ymgeiswyr ailgyflwyno gwaith sy'n seiliedig ar y profiad clinigol neu ymarferol gwreiddiol, ond marc llwyddo yw'r marc uchaf y gellir ei roi.

Rhaid i ymgeiswyr lwyddo yn Rhan 1 a Rhan 2. Efallai y bydd yn rhaid i ymgeiswyr lwyddo hefyd mewn elfennau proffesiynol/ymarfer clinigol ond rhaid diffinio unrhyw ofynion o'r fath ym Manyleb y Rhaglen.

## 6. Cyflwyno Traethawd Ymchwil ac Arholi

### 6.1 Amseru

Yn nodweddiadol, gall ymgeiswyr ymchwil ôl-radd gyflwyno traethawd ymchwil ar y cynharaf, 6 mis cyn y dyddiad cofrestru terfynol. Fodd bynnag, gellir cyflwyno traethawd doethuriaeth ar unrhyw adeg i'w arholi ar ôl cyfnod cofrestru o 18 mis mewn amgylchiadau eithriadol, a chyda chefnogaeth a gofnodwyd yn ffurfiol gan y pwyllgor goruchwylio. Gall ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar radd Meistr trwy Ymchwil o dan Ddull A neu B gyflwyno traethawd ymchwil ar y cynharaf, 2 fis cyn y dyddiad cofrestru terfynol. Gall ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru o dan Ddull E gyflwyno hyd at 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod cofrestru ar gyfer y rhaglen hon. Fis cyn ei gyflwyno, rhaid i bob ymgeisydd ymchwil ôl-radd gwblhau Gwiriad Cymhwyster Terfynol ar-lein yn y Ganolfan Ceisiadau.

### 6.2 Iaith y Traethawd Ymchwil

Rhaid cyflwyno Traethodau Ymchwil yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y gellir cyflwyno Traethodau Ymchwil mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg:

- Mae'r iaith y cyflwynir y gwaith ynddi yn adlewyrchu ym mha iaith y gwnaed yr ymchwil neu fod yr iaith yn sail i'r ymchwil.
- Gall Goruchwyliwr y myfyriwr roi arweiniad a sylwadau ar y traethawd ymchwil heb ei gyfieithu.
- Gellir penodi arholwyr allanol a mewnol i arholi'r gwaith heb ei gyfieithu.

Hefyd, wrth gyflwyno mewn iaith arall mae'n rhaid:

- Dangos manteision pendant mewn perthynas â lledaenu canlyniadau'r ymchwil.
- Bod yn gyson â strategaeth ymchwil y Coleg/Ysgol.
- Peidio â chael effaith negyddol ar fynediad at y traethawd ymchwil.

Ni ddylid cyflwyno traethodau ymchwil mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg os mai un neu ragor o'r canlynol yw'r unig reswm dros wneud. Rhaid mynd i'r afael â ffactorau o'r fath drwy geisio cefnogaeth briodol a, lle y bo'n berthnasol, trwy ymestyn y cyfnod astudio.

- Mae'r myfyriwr yn dymuno cyflwyno mewn iaith arall oherwydd byddai hynny'n haws na chyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg.
- Mae gan y myfyriwr amgylchiadau personol sy'n effeithio ar ei g/allu i gyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg.
- Mae'r myfyriwr, y tu allan i delerau unrhyw gytundebau gyda sefydliad arall, yn dymuno cyflwyno traethawd ymchwil a fydd maes o law yn cael ei gyflwyno i sefydliad arall er mwyn cael cydnabyddiaeth ganddynt hwythau.

### 6.3 Arddull, Cynnwys a Chyflwyno

Rhaid i draethodau ymchwil gynnwys:
- Crynodeb heb fod dros 600 o eiriau.

- Adolygiad o lenyddiaeth sy'n berthnasol i'r gwaith y mae'r ymgeisydd yn ei wneud.
- Disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir gan yr ymgeisydd i gynnal yr ymchwil.
- Disgrifiad o ganlyniadau, trafodaethau a chasgliadau'r ymchwil.
- Llyfryddiaeth o ffynonellau a ddyfynnwyd neu y cyfeiriwyd atynt yn y traethawd ymchwil.

Rhaid cyflwyno'r elfennau hynny (crynodeb, adolygiad llenyddiaeth, amcanion, dulliau, canlyniadau, trafodaethau, casgliadau a chyfeiriadau) a gallant gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- Adrannau/penodau ar wahân.
- Papurau'n barod i'w cyflwyno i gyfnodolyn academaidd.
- Gwaith sydd eisoes wedi'i gyhoeddi.
- Cyfieithiad, fersiwn neu addasiad gwreiddiol.
- Arteffact.
- Sgôr.
- Portffolio o waith gwreiddiol.
- Recordiad neu berfformiad.
- Arddangosfa.

Os caiff gweithiau sydd wedi eu cwblhau gydag awduron eraill eu cynnwys yn y traethawd ymchwil, rhaid diffinio cyfraniad yr ymgeisydd at y gweithiau hynny yn y cyflwyniad. Rhaid i ymgeiswyr wirio a oes angen caniatâd gan gyhoeddwyr unrhyw weithiau cyhoeddedig.

Rhaid i'r traethawd ymchwil beidio â bod yn hwy na 50,000 o eiriau ar gyfer Gradd Meistr trwy Ymchwil a Doethuriaeth Broffesiynol, 60,000 o eiriau ar gyfer MPhil neu 100,000 o eiriau ar gyfer PhD. Nid yw'r nifer geiriau hyn yn cynnwys troednodiadau, llyfryddiaeth nac atodiadau. Rhaid cyflwyno traethodau ymchwil mewn ffontiau Serif clir a darllenadwy (e.e. Times-Roman, Bookman) neu ffontiau Sans-serif (e.e. Arial, Helvetica, Verdana, Tahoma) neu ffontiau tebyg. Ym mhrif gorff y testun, rhaid sicrhau nad yw ffontiau Serif yn llai na 12 pwynt. Yn achos ffontiau Sans-serif, ni chaiff maint y ffont fod yn llai na 10 pwynt. Ni chaiff y nodau mewn darnau eraill o destun (nodiadau, troednodiadau ac ati) fod yn llai na 10 pwynt yn achos ffontiau Serif ac 8 pwynt yn achos ffontiau Sans-serif. Rhaid defnyddio bwlch o 1½ rhwng llinellau yn y prif destun, ond gellir defnyddio bwlch sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau wedi eu mewnoli a throednodiadau. Rhaid bod yr ymylon yn 2.5cm o leiaf ar ymyl y rhwymiad, a 1.5cm ar bob ymyl arall. Wrth argraffu, defnyddiwch ddwy ochr y papur. Gellir defnyddio lliwiau ar gyfer siartiau, diagramau a ffotograffau.

Rhaid cyflwyno traethodau ymchwil fel cyfrol clawr meddal a rhaid darparu copi electronig hefyd (gweler yr amodau isod). Pan gyflwynir cyfrolau meddal, rhaid iddynt:

- fod â rhwymiad sy'n ddigon cadarn i wrthsefyll cael ei hanfon at yr arholwyr a'i dychwelyd.
- Nodi enw'r Ymchwilydd Ôl-radd a theitl y rhaglen ymchwil ôl-radd ar y clawr.

At ddibenion arholi, mae ymgeisydd ymchwil ôl-radd yn nodweddiadol yn cyflwyno:

i. dau gopi clawr meddal o'r traethawd ymchwil. Fodd bynnag, os (a) bydd pob arholwr yn cytuno i dderbyn fersiynau electronig o'r traethawd ymchwil neu (b) cynhelir yr arholiad o dan amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno'r traethawd ymchwil yn gwbl electronig. Dylai pob datganiad wedi'i lofnodi sy'n gysylltiedig â chyflwyno traethawd ymchwil ôl-radd gynnwys naill ai llofnodion ysgrifenedig neu e-lofnodion.

ii. Copi electronig o'r traethawd ymchwil sydd yn union yr un fath â'r fersiwn wedi ei argraffu o ran ei strwythur a'i fformat, i'w gyflwyno fel dogfen pdf.

Rhaid i'r traethawd ymchwil a gyflwynir gynnwys:

- Crynodeb o hyd at 600 o eiriau.
- Datganiad i dystio nad yw'r gwaith wedi cael ei dderbyn am unrhyw gymhwyster, ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd am unrhyw gymhwyster oni bai bod y Brifysgol wedi cytuno i gymwysterau deuol cymeradwy, ac i gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil gan ddefnyddio'r datganiad a nodir isod:

'I hereby declare that this thesis is the results of my own investigations, except where otherwise stated. All other sources are acknowledged by bibliographic references. This work has not previously been accepted in substance for any degree and is not being concurrently submitted in candidature for any degree unless, as agreed by the University, for approved dual awards.

I confirm that I am submitting this work with the agreement of my Supervisor(s).'

'Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn cyflwyno'r gwaith hwn gyda chytundeb fy Ngoruchwyliwr (Goruchwylwyr)

*Ac eithrio pan fydd Bwrdd Arholi yn caniatáu hynny, **ni chaiff** ymgeisydd ddiwygio, ychwanegu na dileu deunydd o'r traethawd ymchwil ar ôl ei gyflwyno*

## 6.4 Cyflwyniad terfynol e-draethawd ymchwil i PURE

Ar ôl cynnal yr Arholiad Llafar a gwneud unrhyw gywiriadau, dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r traethawd ymchwil i'r Gadwrfa fel fersiwn electronig yn unig. Ceir cyfarwyddiadau yn y Canllawiau ar wefan yr Ysgol Ddoethurol. Yma hefyd: canllaw cymorth

Proses cam wrth gam yw hon sy'n golygu:

- Bod yr Ymchwilydd Ôl-radd yn llofnodi ac yn uwchlwytho copi o'r 'Cytundeb Cadw Traethawd Ymchwil' (TDA) yn PURE.
- Bod yr Ymchwilydd Ôl-radd yn uwchlwytho'r fersiwn derfynol o'r traethawd ymchwil ar system PURE yn dilyn yr arholiad llafar ac ar ôl gwneud unrhyw gywiriadau.
- Os yw'r traethawd ymchwil yn cynnwys llawer o ddeunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti neu os oes ystyriaethau o ran y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, yna dylid uwchlwytho dau gopi digidol o'r traethawd ymchwil, un fersiwn cyflawn o'r traethawd

ymchwil (fel yr arholwyd) ac un fersiwn gryno gyda deunydd hawlfraint trydydd parti wedi ei dynnu.
- Ni ddylid cynnwys copïau o erthyglau cyhoeddedig yn y fersiwn o'r traethawd ymchwil sy'n cael ei uwchlwytho. Yn hytrach, dylid cynnwys cyswllt neu DOI (Digital Object Identifier) yn system PURE.
- Mae tîm y Gadwrfa yn gwirio'r traethawd ymchwil i sicrhau bod y datganiad wedi ei lofnodi, ac i weld bod y TDA wedi'i gwblhau a'i uwchlwytho
- Bydd tîm y Gadwrfa yn rhoi gwybod i'r Ysgol Ddoethurol ac i Weinyddwr Ôl-radd y Coleg pan fydd y traethawd ymchwil wedi ei gyflwyno.
- Bydd yr Ysgol Ddoethurol yn cadarnhau a roddwyd embargo.
- Ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei uwchlwytho a bod tîm y gadwrfa yn cadarnhau ei fod ar PURE (i'r Gweinyddwr Ôl-radd Ymchwil), bydd y gweinyddwr ymchwil ôl-radd wedyn yn anfon y gwaith papur sy'n ymwneud â'r arholiad llafar a'r data PURE perthnasol i'r Swyddfa Cymwysterau. Mae'r Swyddfa Cymwysterau yn cadarnhau trwy e-bost i'r myfyriwr bod y broses arholi wedi'i chwblhau, a bod llythyr y cymhwyster wedi'i anfon.
- Unwaith y bydd tîm y Gadwrfa wedi cael copi o lythyr y cymhwyster, bydd y traethawd ymchwil yn cael ei ddilysu yn system PURE a'i gyhoeddi ar-lein drwy gatalog y Llyfrgell ar unwaith neu ar ddiwedd cyfnod embargo.
- Bydd y traethawd ymchwil hefyd yn cael ei gynaeafu gan y Llyfrgell Brydeinig drwy eu cadwrfa ar-lein o draethodau ymchwil, sef ETHOS.

## 6.5 Cyhoeddi a'r Rhwystr Mynediad

Mae'r Brifysgol yn disgwyl bod traethodau ymchwil ôl-radd yn ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd. Gan hynny, oni bai bod rheswm cyfreithlon dros gyfyngu ar fynediad at draethodau ymchwil, bydd pob PhD, Gradd Meistr trwy Ymchwil, Doethuriaethau Proffesiynol ac MPhil ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd drwy gatalog Llyfrgell Prifysgol Bangor.

Gall ymgeisydd gyhoeddi unrhyw waith ymchwil cyn ei gyflwyno i'w arholi. Gellir cynnwys gwaith sydd wedi ei gyhoeddi yn y traethawd ymchwil. Mewn rhai achosion, mae'n bosib na chaniateir cyhoeddi, er enghraifft, lle gosodwyd cyfyngiadau gan noddwr neu gan y brifysgol. Os yw traethawd ymchwil yn cynnwys data cyfrinachol neu sensitif efallai na fydd yn briodol cyhoeddi'r testun llawn ar-lein. Yn yr un modd, os oes bwriad i gyhoeddi'r traethawd ymchwil cyfan, neu ddarnau ohono, yna efallai y bydd angen cyfyngu ar fynediad i'r fersiwn electronig. Mewn achos felly, gellir gofyn am roi embargo/rhwystro mynediad. Gellir dod o hyd i'r ffurflen a'r canllawiau perthnasol yma: https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/resources.php.cy

Gellir caniatáu rhwystro mynediad i'r traethawd ymchwil a/neu i ddata cysylltiedig am gyfnod penodol o hyd at bum mlynedd. Rhaid i Oruchwylydd yr ymgeisydd gyflwyno cais i rwystro mynediad. Rhaid cyflwyno ceisiadau o'r fath i'r Ysgol Ddoethurol, a chaiff ceisiadau am gyfnod sydd yn hwy na 6 mis eu hystyried gan Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd (neu rywun a enwebir yn ei le/yn ei lle).

## 6.6 Bwrdd Arholi

Mae gofyn i'r Bwrdd Arholi gynnal arholiad llafar ar gyfer pob ymgeisydd. Gall y Bwrdd Arholi hepgor y gofyniad hwn wrth arholi traethawd ymchwil sy'n cael ei ailgyflwyno. Rhaid i'r arholwyr farnu'r traethawd ymchwil ar sail safon a rhychwant y gwaith y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan Ymchwilydd Ôl-radd ar ôl cyfnod astudio penodol (gweler Adran 2). Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n ofynnol i arholwyr ystyried amgylchiadau o'r fath fel rhan o'u

trafodaethau. Dylai amgylchiadau o'r fath gael eu cofnodi a'u cyflwyno i Gadeirydd yr Arholwyr (i'w rhannu wedyn â phob arholwr) gan oruchwyliwr yr ymgeisydd. Dyma aelodau'r Bwrdd Arholi:

- Cadeirydd
- Arholwr mewnol (ac eithrio yn achos ymgeiswyr sy'n aelodau staff)
- Arholwr Allanol
- Ail arholwr allanol (dim ond yn achos ymgeiswyr sy'n aelodau staff)

Diffinnir y meini prawf ar gyfer dewis arholwyr yn y Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil.

Rhaid bod Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n aelod profiadol o staff academaidd yr Ysgol, neu os yw'r amgylchiadau'n gwarantu hynny, o Ysgol arall yn y Brifysgol. Gall aelod profiadol o staff mewn sefydliad cydweithredol gadeirio'r Bwrdd Arholi, yn amodol ar delerau'r cytundeb cydweithredol. Os nad yw'n bosib penodi arholwr mewnol oddi fewn i'r Ysgol, gellir penodi arholwr mewnol o Ysgol arall. Os nad yw'n bosib penodi arholwr mewnol o Ysgol arall, gall Cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu (neu rywun a enwebir ar ei ran), ar argymhelliad Pennaeth yr Ysgol, benodi arholwr allanol ychwanegol, yn unol â'r disgrifiad yn y Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil.

Ni ddylid penodi Prif Oruchwyliwr neu Gyd-oruchwyliwr(wyr) Ymgeisydd Ymchwil Ôl-radd yn gadeirydd neu'n arholwr mewnol. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y caiff y Goruchwyliwr(wyr) fod yn bresennol yn yr arholiad llafar:

i. Os bydd yr ymgeisydd yn gwneud cais i'r Goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y Cadeirydd yn cytuno.
ii. Os yw'r Cadeirydd, ar ôl ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd neu'r goruchwyliwr, o'r farn bod angen i'r Goruchwyliwr fod yn bresennol.
iii. Os bydd yr arholwr mewnol neu allanol yn gwneud cais i'r Goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y Cadeirydd a'r ymgeisydd yn cytuno.

Ni chaiff Goruchwyliwr sy'n bresennol mewn arholiad llafar siarad ac eithrio pan fydd y Cadeirydd yn ei wahodd i wneud hynny. Er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddisgrifio amgylchiadau lliniarol, gall y Cadeirydd ofyn i'r Goruchwyliwr fynd allan o'r ystafell yn ystod rhannau o'r arholiad.

Gall ymgeisydd roi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Arholi os oes unrhyw amgylchiadau lliniarol sy'n berthnasol i'r project ymchwil, i'r traethawd ymchwil neu i'r broses o arholi'r traethawd ymchwil. Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi. Yn ôl doethineb y Cadeirydd, gall yr ymgeisydd gyflwyno manylion yr amgylchiadau lliniarol yn ystod yr arholiad llafar.

Gall Goruchwyliwr roi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Arholi os oes unrhyw bryderon sy'n berthnasol i brojectymchwil yr ymgeisydd, i'r traethawd neu i'r broses o arholi'r traethawd ymchwil. Gall Goruchwyliwr hefyd roi gwybod i'r Cadeirydd os cyflwynwyd traethawd ymchwil heb ganiatâd y Goruchwyliwr. Rhaid hysbysu'r Cadeirydd a'r ymgeisydd yn ysgrifenedig mor fuan â phosib ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil, i ganiatáu amser i'r myfyriwr baratoi ymateb. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael digon o amser i ymateb i unrhyw bryderon a godir gan y Goruchwyliwr.

Argymhellir yn gryf bod pob ymgeisydd ymchwil ôl-radd yn sefyll ei arholiad *viva voce* (llafar) cyn gynted ag y gellir ei drefnu ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil. Pan fydd gan ymgeisydd amgylchiadau eithriadol sy'n peri iddo wneud cais i gael gohirio amserlennu'r arholiad llafar, dylai gyfeirio'r holl faterion i'r pwyllgor goruchwylio yn y lle cyntaf. Os yw'r cais am ohirio yn cael ei gadarnhau gan y pwyllgor goruchwylio, dylid rhoi gwybod yn ffurfiol am y penderfyniad hwn i Bennaeth yr Ysgol briodol a Chyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd y Coleg.

### 6.7 Arholiad Llafar (*viva voce*)

Mae angen sefyll arholiad llafar i gael cymhwyster ym mhob rhaglen astudio ddoethurol (Dulliau A-F). Ar gyfer Graddau Meistr drwy Ymchwil, dim ond pan ofynnir am 'Gywiriadau Sylweddol' gan yr arholwyr y mae arholiad llafar yn ofynnol. Caiff rhaglenni Meistr trwy Ymchwil eu harholi yn defnyddio arholiad llafar (viva voce), ond gall Byrddau Arholi gytuno nad oes angen arholiad llafar (viva voce) os yw'r adroddiadau arholi mewnol ac allanol rhagarweiniol yn nodi nad oes unrhyw amodau neu mai mân gywiriadau yn unig sydd angen eu gwneud. Ar gyfer Graddau Meistr trwy Ymchwil, bydd wastad angen arholiad llafar pan fydd arholwyr yn gofyn am

i. 'Gywiriadau Sylweddol' nad ydynt yn ymwneud yn unig â natur gyflwyniadol y traethawd hir.
ii. pan fydd arholwyr yn gofyn am benderfyniad C2 (neu fethiant).

Pwrpas yr arholiad llafar yw:

- Galluogi'r arholwyr i fod yn sicr mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd amddiffyn y traethawd ymchwil ac egluro unrhyw faterion y bydd yr arholwyr yn eu codi.
- Caniatáu i'r arholwyr asesu gwybodaeth gyffredinol yr ymgeisydd am y maes astudio penodol.

Yn unol â Phennod B11 o God Ansawdd Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y Deyrnas Unedig, gofynnir i Arholwyr gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig annibynnol ar wahân cyn yr arholiad llafar ac adroddiad ar y cyd yn dilyn yr Arholiad Llafar. Gofynnir i Arholwyr Allanol adrodd ar y broses arholi hefyd. Bydd adroddiadau'r Arholwyr Mewnol ac Allanol ar gael i'r ymgeisydd ar ôl yr arholiad llafar.

Rhaid cynnal yr arholiad llafar yn y brifysgol, neu, os yw pawb yn cytuno, trwy gynhadledd fideo (neu gwasanaeth cyfatebol fel Skype) yn cynnwys safle'r brifysgol neu hyd at bedwar safle arall. Dylai unrhyw geisiadau pellach sy'n ymwneud â sawl safle am arholiad viva gael eu gwneud yn y lle cyntaf i'r Deon Ymchwil Ôl-radd gan y goruchwyliwr, gan nodi'n llawn y rhesymau am y cais eithriadol. Dylid rhoi prawf ymlaen llaw ar gryfder y cysylltiad fideo a dylai cyswllt llinell ffôn ddaearol fod ar gael wrth gefn. Ni chaiff Ymgeiswyr fynediad at unrhyw ddeunydd ychwanegol naill ai ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd yn ystod yr arholiad llafar ac ni chânt gyfathrebu'n electronig gydag unrhyw un arall yn ystod yr arholiad.

Dim ond os yw Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn cytuno y gellir cynnal yr arholiad llafar mewn man arall. Gellir cynnal yr arholiad llafar mewn sefydliad partner os yw'r rhaglen ymchwil ôl-radd yn rhan o gytundeb cydweithredol.

Rhaid cynnal yr arholiad llafar o fewn 3 mis i'r dyddiad y cyflwynwyd y traethawd ymchwil. Gall Cadeirydd y Bwrdd Arholi ohirio arholiad llafar os oes amgylchiadau lliniarol sy'n atal yr ymgeisydd rhag bod yn bresennol. Ni ellir gohirio'r arholiad llafar am fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y traethawd ymchwil.

Mae canllawiau ar gynnal yr arholiad llafar i'w cael yn Atodiad 1.

Lle cynhelir yr arholiad llafar trwy fideo-gynadledda a bod anawsterau technegol anorchfygol yn arwain at darfu'n ddifrifol ar yr arholiad, bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am drefnu'r dyddiad nesaf sydd ar gael i'r holl bartïon dan sylw. Bydd yr arholiad a aildrefnwyd yn parhau o'r man y daeth i ben o'r blaen, ar yr amod bod y Cadeirydd a'r arholwyr yn cytuno bod rhan sylweddol o'r arholiad eisoes wedi'i chynnal yn y lle cyntaf. Os oedd yr anawsterau technegol wedi rhwystro'r arholiad yn gynnar yn y broses, bydd yr arholiad a aildrefnwyd yn arholiad hollol newydd o'r ymgeisydd, ac felly bydd angen gofyn cwestiynau newydd. Rhaid egluro i'r ymgeisydd bod unrhyw arholiad a aildrefnwyd felly yn arholiad cyntaf (parhaus neu wedi'i ailddechrau) ac nad yw'n ailgyflwyniad, gan na wnaed unrhyw benderfyniad hyd yma ar draethawd ymchwil yr ymgeisydd. Rhaid i'r posibilrwydd o straen ychwanegol i'r ymgeisydd, yn dilyn anawsterau technegol ac aildrefnu, gael eu hystyried gan y Cadeirydd a'r arholwyr o ran **sut** y cynhelir yr arholiad, er na ddylai'r ystyriaeth hon effeithio ar benderfyniadau'r arholwyr am y traethawd ymchwil.

### 6.8 Byrddau Arholi - Opsiynau/Penderfyniadau

Rhaid i Fyrddau Arholi ddewis Opsiwn A, B neu C.

Opsiwn A. Dyfarnu'r radd gan ddefnyddio Opsiwn A1, A2 neu A3

A1. Yn ddiamod

A2. Ar ôl cwblhau mân gywiriadau.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 3 mis (2 fis yn achos Graddau Meistr trwy Ymchwil a PhD trwy Ddull E) i'r dyddiad y mae'r ymgeisydd yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Yn achos mân gywiriadau nid oes angen ail asesiad academaidd, er enghraifft, gwallau teipograffyddol neu ychydig o aildrefnu ar y deunydd. Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud. Yn achos PhD trwy Ddull E, mae mân gywiriadau'n berthnasol i'r dadansoddiad beirniadol yn unig.

A3. Ar ôl cwblhau diwygiadau sylweddol.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 6 mis (neu 4 mis yn achos traethodau ymchwil Graddau Meistr trwy Ymchwil a PhD trwy Ddull E) i'r dyddiad y mae'r ymgeisydd yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Rhaid i'r arholwr allanol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud. Ar gyfer PhD trwy Ddull E, caniateir i'r ymgeisydd addasu ac ailgyflwyno'r dadansoddiad beirniadol.

Opsiwn B. Cynnal arholiad arall (cyfeirio) yn dilyn derbyn tâl am ailgyflwyno gan ddefnyddio Opsiwn B1 neu B2

Ni ddefnyddir Opsiwn B1 ar ôl arholi traethawd ymchwil Gradd Meistr trwy Ymchwil neu draethawd ymchwil a ailgyflwynwyd

B1. Caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn 12 mis. Gellir ailgyflwyno traethodau ymchwil am gymhwyster fel y rhestrir isod:

MPhil – ailgyflwyno ar gyfer MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil
DMin – ailgyflwyno ar gyfer DMin, MPhil neu MMinRes
EdD– ailgyflwyno ar gyfer EdD, MPhil neu MEdRes
DClinPsy – ailgyflwyno ar gyfer DClinPsy
DHealthCare - ailgyflwyno ar gyfer DHealthCare
PhD – ailgyflwyno ar gyfer PhD, MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil

Ar gyfer PhD trwy Ddull E, ar ôl cyflwyno am y tro cyntaf pan gafwyd bod y gwaith cyhoeddedig yn anfoddhaol, gall y Bwrdd Arholi ganiatáu ei gyflwyno eto yn cynnwys gwaith ychwanegol o ansawdd a safon briodol o fewn cyfnod a bennir gan y Bwrdd nad yw'n hwy na phum mlynedd.

Os dewisir Opsiwn B1, rhaid i'r Bwrdd Arholi nodi hefyd a oes angen arholiad llafar ar ôl ailgyflwyno traethawd ymchwil.

Os yw'r ymgeisydd yn dewis peidio ag ailgyflwyno yna rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis un o'r opsiynau sy'n cael eu diffinio yn Adran C.

B2. Rhaid i'r myfyriwr gael arholiad llafar arall:

i. heb fod angen gwneud unrhyw gywiriadau i'r traethawd ymchwil.
ii. gan wneud mân gywiriadau i'w cwblhau o fewn 3 mis (2 fis yn achos Gradd Meistr trwy Ymchwil) a chyn yr arholiad llafar.

Ar ôl yr arholiad hwn (neu os yw'r ymgeisydd yn dewis peidio â mynychu), rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis opsiwn A, B neu C, ond ni ddefnyddir opsiwn B2.

Opsiwn C. Penderfynu bod yr ymgeisydd wedi methu â chyrraedd y safon ofynnol.

Yn achos Gradd Meistr trwy Ymchwil, DClinPsy a DHealthCare rhaid i'r Bwrdd Arholi ddefnyddio opsiwn C2.
Yn achos pob cymhwyster arall, rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis Opsiwn C1 neu C2.

C1. Dyfarnu cymhwyster amgen fel a ganlyn, gan ddewis opsiwn C1 –i neu C1 – ii (amherthnasol trwy Ddull E)

MPhil – dyfarnu Gradd Meistr trwy Ymchwil mewn pwnc perthnasol
DMin – dyfarnu MMin Ymchwil (MMinRes)
EdD – dyfarnu MEd Ymchwil (MEdRes)
PhD – dyfarnu MPhil.

i. yn ddiamod.
ii. gan wneud mân gywiriadau i'w cwblhau o fewn 3 mis (2 fis yn achos Gradd Meistr trwy Ymchwil). Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

C2. Peidio â dyfarnu gradd.

Dim ond ar gyfer Gradd Meistr trwy Ymchwil, DClinPsy, DHealthCare neu pan arholir traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd y dylai arholwyr ddewis yr opsiwn hwn.

---

Mewn rhaglenni sy'n arwain at ddyfarnu cymwysterau ar y cyd neu gymwysterau deuol, a phan nad arholiad llafar ym Mangor yw'r cam terfynol, yna gellir gohirio'r penderfyniad

dyfarnu hyd nes bod pob elfen o'r broses arholi wedi eu cwblhau.  Ceir rhagor o wybodaeth yn y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol.

Os yw'n rhaid cywiro traethawd ymchwil fel y'i diffinnir yn Opsiynau A2, A3, B2ii neu C1ii, rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholwyr fod yn fodlon bod y cywiriadau y cytunwyd arnynt gan y ddau arholwr yn eglur ac yn ymarferol i'r ymgeisydd eu cwblhau o fewn yr amser penodedig gan ddisgwyl canlyniad llwyddiannus o gyflwyno'r traethawd ymchwil diwygiedig. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau, o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu, fod yr ymgeisydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig pryd y bydd yn rhaid cyflwyno'r traethawd ymchwil a gywirwyd a rhoi rhestr iddo/iddi o'r cywiriadau y mae'r arholwyr yn eu hawgrymu. Os oes angen cywiro traethawd ymchwil yn unol â'r diffiniad yn Opsiwn B1, bydd y Brifysgol yn anfon llythyr o fewn 5 diwrnod gwaith wedi iddi dderbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi i roi gwybod i'r ymgeisydd pryd y bydd angen cwblhau'r cywiriadau. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn rhestr gan y gweinyddwr Ymchwil Ôl-radd o'r cywiriadau a awgrymir gan yr arholwyr. Os bydd anghytuno mawr, ar unrhyw adeg yn y broses arholi, rhwng yr arholwyr ynghylch asesu'r traethawd ymchwil, dylai Cadeirydd/Arweinydd yr Ysgol Ôl-radd gysylltu â'r Deon Ymchwil Ôl-radd i drafod ymhellach a datrys y mater.

Rhaid i Ysgolion wneud yn siŵr bod gweithdrefnau ar waith i wirio bod cywiriadau wedi cael eu cwblhau cyn y dyddiadau cau.  Yr arholwr mewnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall natur y cywiriadau, ac yn cadarnhau wrth y Cadeirydd bod y cywiriadau wedi eu gwneud i foddhad yr arholwyr.  Dylai unrhyw gyfathrebu rhwng ymgeisydd ac arholwr allanol yn dilyn yr arholiad llafar ddigwydd trwy gyfrwng yr arholwr mewnol.   Os na chaiff traethawd ymchwil ei ailgyflwyno cyn y dyddiad cau, rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis opsiwn C1 neu C2.

Pan ailgyflwynir traethawd ymchwil, rhaid i ymgeisydd roi crynodeb i'r Bwrdd Arholi o'r newidiadau a wnaed i'r traethawd ymchwil gwreiddiol.

Yn eithriadol, os yw unrhyw aelod o'r Bwrdd Arholi eisoes wedi cymeradwyo'r diwygiadau ar gyfer yr ailgyflwyno yn ysgrifenedig, ond nad yw hefyd yn cwblhau'r ddogfennaeth swyddogol, er gwaethaf yr holl ymdrechion rhesymol a wnaed gan y Brifysgol i sicrhau'r ddogfennaeth hon, yna gall Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd ddyfarnu'r radd i'r ymgeisydd ymchwil.

Os oes angen cywiriadau ar ôl yr arholiad, rhaid cyflwyno'r fersiwn wedi ei chywiro o'r traethawd ymchwil ar ffurf electronig er mwyn ei gymeradwyo.  Mae'n rhaid i fersiwn derfynol y traethawd ymchwil, sydd wedi'i gywiro a'i gymeradwyo, fod yn gopi electronig. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno fersiwn electronig derfynol o'r traethawd i Gadwrfa Ddigidol y Brifysgol (PURE) yn dilyn y gweithdrefnau sydd wedi cael eu diffinio gan y Brifysgol.

Rhaid i ymgeiswyr gael caniatâd i ddefnyddio deunydd dan hawlfraint. Cyfyngir ar fynediad electronig i'r traethawd ymchwil os na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd dan hawlfraint.

Gall ymgeiswyr apelio trwy'r Weithdrefn Apelio. Mae'r Weithdrefn hon yn cynnwys dwy broses neilltuol: Ni all ymgeiswyr gwestiynu barn academaidd yr arholwyr yn defnyddio'r weithdrefn hon.

## Atodiad 1. Canllawiau ar gyfer Arholiad Llafar

### Swyddogaeth y Goruchwyliwr(wyr)

Y Goruchwyliwr(wyr) sy'n gyfrifol am drefnu dyddiad ac amser yr arholiad, er y gellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i staff gweinyddol mewn Coleg neu Ysgol. Rhaid i'r Goruchwyliwr sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall pwrpas yr arholiad ac yn gyfarwydd â'r broses a'r modd y caiff *Arholiad Llafar* ei gynnal. Rhaid egluro'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r arholiad yn seiliedig ar gwestiynau gan yr arholwyr.
- Prif bwrpas yr arholiad yw sicrhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil.
- Bydd yr arholiad yn cynnwys cwestiynau am y traethawd ymchwil a gall hefyd gynnwys cwestiynau cyffredinol am y maes pwnc.
- Gall yr ymgeisydd edrych ar y traethawd ymchwil yn ystod yr arholiad.
- Gall yr arholwyr ofyn i ymgeiswyr egluro yn eu geiriau eu hunain rai o'r agweddau sy'n cael eu disgrifio yn y traethawd ymchwil.
- Rhaid i'r broses o arholi traethodau ymchwil fod yn gadarn a heriol, a rhaid i ymgeiswyr beidio â thybio bod y cwestiynau o angenrheidrwydd yn adlewyrchu unrhyw wendid yn y traethawd ymchwil.

### Cyn yr Arholiad

Mae'n rhaid trefnu bod ystafell addas ar gael ar gyfer yr arholiad lle na fydd dim yn tarfu arno. Mae'n rhaid i'r arholwyr gyfarfod cyn yr amser a drefnwyd ar gyfer yr arholiad i drafod eu hadroddiadau rhagarweiniol. Rhaid iddynt benderfynu sut y bydd yr arholiad yn cael ei gynnal, gan roi pwyslais penodol ar y materion i'w codi gyda'r ymgeisydd a phwy fydd yn arwain ar bob mater. Rhaid i'r arholwr allanol gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros yr arholiad. Mewn achosion lle mae mwy nag un arholwr allanol, rhaid cytuno pwy fydd yn arwain.

### Yn Ystod yr Arholiad

#### Swyddogaeth y Cadeirydd

Rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno aelodau'r Bwrdd Arholi a rhoi cyflwyniad byr o ran sut y bydd y Bwrdd yn cael ei gynnal. Rhaid i'r Cadeirydd gadarnhau na ddylid defnyddio unrhyw ddyfais electronig i recordio'r arholiad, oni bai fod pob parti wedi cytuno i hynny ymlaen llaw. Os, mewn sefyllfa eithriadol, y gwneir recordiad y cytunwyd arno, dylai fod ar gael i bob parti ar ôl yr arholiad.

Mae'n bwysig bod y Cadeirydd yn gwneud ymdrech i wneud i'r ymgeisydd deimlo'n gartrefol. Mae'n arfer da bod y Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd i (i) gyflwyno ei hun a (ii) rhoi crynodeb byr o'r gwaith fydd yn cael ei arholi. Rhaid i'r Cadeirydd oruchwylio'r dull o gynnal yr arholiad a dim ond pan fo'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr arholiad yn mynd rhagddo fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliad hwn y dylai ymyrryd.

### Swyddogaeth yr Arholwr(wyr) Allanol

Yr arholwr(wyr) allanol fydd yn gyfrifol am yr arholiad ac yn gofyn y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Mae'r dull o ofyn cwestiynau'n fater o ddewis personol i raddau helaeth a gellir newid y dull hwnnw yn ystod yr arholiad mewn ymateb i atebion ac ymarweddiad yr ymgeisydd. Er bod dangos rhywfaint o hyblygrwydd yn hanfodol, mae hefyd yn bwysig cynllunio'r cwestiynau, blaenoriaethu meysydd pwysig a rhoi llai o bwyslais ar fân bwyntiau y gellir eu cyfleu i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig ar ôl yr arholiad. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r arholiad fod ar ffurf trafodaeth ac ni ddylai fod yn wrthwynebol.

### Swyddogaeth yr Arholwr Mewnol

Rhaid i'r arholwr mewnol ofyn cwestiynau sy'n helpu i egluro unrhyw atebion a roddir gan yr ymgeisydd; sy'n mynd i'r afael â materion sydd hwb gael sylw yng nghwestiynau'r arholwr allanol; ac sy'n annog yr ymgeisydd i ddatblygu eu hatebion er mwyn mynd i'r afael â nodweddion penodol o gyd-destun neu amgylchedd yr ymchwil.

### Gofyn Cwestiynau

Rhaid i arholwyr:

- Ddefnyddio sawl gwahanol fath o gwestiynau: gall cwestiynau agored fod yn ddefnyddiol i annog atebion manwl, ond mae cwestiynau caeedig yn ffordd effeithiol o brofi gwybodaeth/dealltwriaeth ymgeisydd am bwnc penodol.
- Rhoi amser priodol i'r ymgeisydd ateb cwestiwn.
- Aralleirio'r cwestiwn os yw'r Ymchwilydd Ôl-radd yn rhoi ateb gwael a all fod oherwydd iddo/iddi gamddeall y cwestiwn.
- Bod yn ddoeth wrth fynd ar drywydd unrhyw gwestiynau nad yw'r ymgeisydd wedi llwyddo i'w hateb.
- Annog yr ymgeisydd drwy ganmol neu gydnabod atebion cryf yn briodol.
- Gofyn cwestiynau anodd a rhai llai anodd am yn ail er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddod at eu hunain yn dilyn unrhyw gwestiwn anodd.

Ni ddylai arholwyr:

- Awgrymu beth fydd canlyniad yr arholiad ar ddechrau'r arholiad llafar.
- Codi ofn ar ymgeiswyr drwy ofyn nifer fawr o gwestiynau cas.
- Gofyn cwestiynau neu wneud sylwadau am fân wallau teipograffyddol neu ramadegol.
- Gofyn cwestiynau fesul tudalen.
- Canolbwyntio ar un agwedd neu un elfen o'r traethawd ymchwil yn unig.

## Ar Ddiwedd yr Arholiad

Ar ddiwedd yr arholiad, rhaid i'r Cadeirydd roi cyfle i'r ymgeisydd wneud unrhyw sylwadau ychwanegol. Os na roddwyd cyfle ar ddechrau'r arholiad, gellir gwahodd yr ymgeisydd i grynhoi prif gasgliadau'r traethawd ymchwil. Yna, rhaid i'r Cadeirydd esbonio'r broses arholi, yr opsiynau sydd ar gael i'r Bwrdd Arholi, a rhaid iddo/iddi wahodd yr ymgeisydd i aros y tu

allan i'r ystafell arholi hyd nes y bydd penderfyniad wedi ei wneud neu ofyn iddo ddychwelyd ar amser penodol.

**Ar ôl yr Arholiad**

Gall naill ai'r Cadeirydd neu'r arholwr allanol ddweud wrth yr ymgeisydd beth yw penderfyniad y Bwrdd Arholi. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall penderfyniad y panel a rhaid iddo/iddi egluro pa gamau, os o gwbl, y mae'n rhaid i'r Ymchwilydd Ôl-radd eu cymryd a'r amserlen ar gyfer cymryd camau o'r fath. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod sylwadau'r arholwyr yn cael eu rhoi i'r Ymchwilydd Ôl-radd. Rhaid i'r Cadeirydd hefyd sicrhau bod penderfyniad y Bwrdd yn cael ei gofnodi'n gywir ar y ffurflenni arholi a bod trefniadau ar waith i gwblhau'r ffurflenni.

## Atodiad 2. Termau

| | |
|---|---|
| Cydnabod Dysgu Blaenorol | Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnwys cydnabod dysgu blaenorol, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol, cydnabod dysgu blaenorol trwy brofiad, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol ac/neu ddysgu blaenorol trwy brofiadol a chydnabod dysgu a chyflawniad blaenorol. Nid yw Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnwys trosglwyddo a chronni credydau. |
| Asesu | Mae asesu/asesiad yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu. Fe'i defnyddir i farnu cyrhaeddiad Ymchwilwyr Ôl-radd ac i benderfynu a ydynt wedi cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl a'r rhaglen.<br>Hefyd defnyddir asesu fel berfenw i ddisgrifio gweithgareddau (e.e. arholiadau, gwaith cwrs). |
| Cymhwyster | Y math o gymhwyster a ddyfernir (e.e. Baglor y Celfyddydau, BA). |
| Byrddau arholi | Byrddau sy'n gyfrifol am asesu, dilyniant a dosbarthiad cymwysterau. |
| Modiwl craidd | Modiwl y mae'n rhaid i bob Ymchwilwyr Ôl-radd ar Raglen ei ddilyn a llwyddo ynddo. |
| Gwaith cwrs | Unrhyw asesiad nad yw'n arholiad nac yn brawf. |
| Credyd | Mesuriad o ddeilliannau dysgu y gellir eu cyflawni mewn oriau tybiannol. Mae un credyd yn gyfwerth â 10 awr dybiannol. |
| Lefel credyd | Gweler Lefel 6, Lefel 7 a Lefel 8 |
| Cofrestru | Dyma'r broses lle mae Ymchwilydd Ôl-radd yn ymrestru'n ffurfiol ar gyfer cymhwyster penodol yn y Brifysgol. |
| Arholwr Allanol | Cynghorwr annibynnol a diduedd sy'n rhoi sylwadau gwybodus ar safonau a chyrhaeddiad Ymchwilydd Ôl-radd. Fel rheol, mae'n uwch academydd mewn prifysgol arall, neu'n ymarferydd profiadol yn y maes pwnc. |
| *Force majeure* | [Rheoliadau sy'n weithredol pan fo'r sefydliad academaidd yn gweithredu mewn] amgylchiadau eithafol neu anghonfensiynol. |
| Deilliannau Dysgu | Datganiadau, ar lefel rhaglenni a modiwlau, am yr hyn y gellir disgwyl i Ymchwilydd Ôl-radd ei wybod, ei ddeall, ac/neu ei wneud o ganlyniad i brofiad dysgu. |
| Lefel 6 | I lwyddo ar Lefel 6 rhaid gallu adolygu'n feirniadol, atgyfnerthu ac ehangu corff gwybodaeth trefnus a chydlynol, gan ddefnyddio sgiliau arbenigol ar draws maes astudio; gwerthuso'n feirniadol gysyniadau a thystiolaeth newydd o amrywiaeth o ffynonellau; trosglwyddo a chymhwyso sgiliau diagnostig a chreadigol ac ymarfer cryn ddoethineb mewn ystod o sefyllfaoedd; a derbyn cyfrifoldeb am bennu a chyrraedd canlyniadau personol ac/neu grŵp.[1] |
| Lefel 7 | I lwyddo ar Lefel 7 rhaid gallu dangos meistrolaeth ar faes gwybodaeth a sgiliau cymhleth ac arbenigol, gan ddefnyddio sgiliau uwch i gynnal ymchwil, neu weithgareddau technegol neu |

| | |
|---|---|
| | broffesiynol uwch, gan gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau cysylltiedig gan gynnwys goruchwyliaeth.[1] |
| Lefel 8 | I lwyddo ar Lefel 8 rhaid gallu gwneud cyfraniad sylweddol a gwreiddiol i faes ymchwil arbenigol, gan ddangos gafael ar y materion methodolegol ac i gynnal dialog beirniadol gyda chydweithwyr; gan gymryd cyfrifoldeb llawn am y canlyniadau. |
| Modiwl | Bloc dysgu cydlynol ac annibynnol sy'n ffurfio rhan o raglen. |
| Canlyniadau | Gweler Deilliannau Dysgu. |
| Rhaglen | Rhaglen astudio a ddilysir gan y Brifysgol ac sy'n cynnwys modiwlau Craidd, Gorfodol, Dewisol a Detholiadol fel y'u diffinnir ym Manyleb y Rhaglen. |
| Manyleb y Rhaglen | Disgrifiad o raglen a ddilyswyd ac a gyflwynwyd mewn fformat diffiniedig. |
| Cymhwyster | Gweler Cymhwyster. |
| Cofrestru | Mae'r broses y mae Ymchwilwyr Ôl-radd sydd wedi ymrestru yn ei dilyn i 'gofrestru' fel Ymchwilwyr Ôl-radd yn y sesiwn academaidd gyfredol. Rhaid i Ymchwilwyr Ôl-radd ail-gofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd o'u hastudiaethau. |
| Cynllun Astudio | Gweler Rhaglen. |
| Ysgol | Adran o'r brifysgol sy'n gyfrifol am gyflwyno rhaglen. |
| Dilysu | Y broses o gymeradwyo rhaglen. Gweler y Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni |

[1] Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. 2009. Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru 2009-2014.

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) gynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr.  Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn.  Os ydych yn anhapus gyda'r canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i'r OIA adolygu'r achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i'r OIA, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students.
Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i'r OIA.  Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl ichi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nid oes dim camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol.  Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig.  Hyd yn oed os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch.  Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.

I ddod â chwyn gerbron yr OIA, mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Gwyno'r OIA a honno wedi'i chwblhau cyn pen blwyddyn wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at yr OIA.